

# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 508 · Mawrth 2020 · 50c

## WAW! Hanner Miliwn i'r Dyffryn

Mawr fu'r dathlu yn swyddfa Partneriaeth Ogwen ddiwedd Chwefror ar ôl derbyn cadarnhad fod cais 'Dyffryn Gwyrdd' i Raglen Wledig Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi bod yn llwyddiannus. Mae'r Bartneriaeth wedi derbyn bron i hanner miliwn o bunnoedd, £494,670 ar gyfer y prosiect tair blynedd i ddatblygu ac i hyrwyddo Dyffryn Ogwen fel ardal gynaliadwy. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar daclo tloidi trafniadaeth a thloidi tanwydd, unigedd gwledig a grymuso'r cymunedau hynny.

Dyweddodd Meleri Davies, Prif Swyddog Partneriaeth Ogwen "Rydym wrth ein boddau, ac yn teimlo ein bod wedi ennill y Loteri yma'n Nyffryn Ogwen! Ers sefydlu'r Bartneriaeth yn 2013, 'rydym wedi mynd o nerth i nerth. Ein bwriad nawr yw gweithio gyda'n partneriaid craidd, y gymuned leol a'n gwirfoddolwyr i wireddu'r weledigaeth. Byddwn yn datblygu'r 'Dyffryn Gwyrdd' i fod yn esiampl o ddatblygiad cynaliadwy gyda chynllun trafniadaeth gymunedol, cynnydd mewn cyfleoedd gwirfoddoli, gwella sgiliau a chreu swyddi. Byddem hefyd yn datblygu Hwb y Dyffryn Gwyrdd yn Stryd Fawr Bethesda i fod yn ganolfan ar gyfer cyngor a chymorth ar effeithlonrwydd ynni i'n trigolion. Bydd hyn yn grymuso'n cymunedau i wireddu'n gweledigaeth o gymuned deg, gynaliadwy ddwyieithog sy'n cydweithio i liniaru ar dlodi drwy gydweithio amgylcheddol".

Dyweddodd Rona Aldridge,



Cadeirydd pwyllgor Rhaglen Gwledig Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

"Fe gymeradwyodd y pwyllgor y cais hwn yn frwd. Fe wnaeth ymrwymiad Partneriaeth Ogwen i adeiladu ar eu gwaith cadarnhaol

presennol gyda'r gymuned i greu y prosiect hwn i gael canlyniadau cynaliadwy gryn argraff arnom."

Ychwanegodd Huw Davies, Cyd-lynnydd y Dyffryn Gwyrdd " Mae'r newyddion ardderchog yma'n dystiolaeth o'r ymgynghori

a wnaethpwyd gyda'r gymuned a'r brwdfrydedd sydd gan ein trigolion led-led y dyffryn i gydweithio gyda ni fel Partneriaeth er mwyn gwella a chryfhau y dyffryn, yn gymunedol, amgylcheddol a chymdeithasol".

### Y Llais yn cofio John Huw

Gyda thristwch mawr y clywyd am farwolaeth John Huw Evans yn ystod mis Chwefror ac yntau yn 93 mlwydd oed.

Bu John yn un o hoelion wyth Llais Ogwan dros flynyddoedd maith - yn llywydd am gyfnod, yn ohebydd i ardal Rhiwlas ac yn werthwr a dosbarthwr hefyd.

Roedd yn meddwl y byd o'r Llais, ac yn edrych ymlaen at ei dderbyn yn fisol yng Nghartref Preswyl Plas Pengwaith yn Llanberis.

Mae Llais Ogwan yn gwertfawrogi ei gefnogaeth â'i holl waith di-flino. Diolch John!



**Er cof annwyl am John Huw Evans**

Yn wylaidd, bu'n symbyliad hyd ei oes,  
diwyd oedd yn wastad,  
i'w filltir sgwâr rhoes ei gariad,  
haul ei wên i Gymru'i wlad.

(Annes Glyn)

## Panel Golygyddol

Derfel Roberts

☎ 600965

derfel.roberts@btinternet.com

Ieuan Wyn

☎ 600297

ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts

☎ 600490

l.roberts11@btinternet.com

Neville Hughes

☎ 600853

nev\_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan

☎ 602440

dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard

☎ 07402 373444

trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams

☎ 601167

waltermenai@yahoo.co.uk

Rhodri Llŷr Evans

☎ 07713 865452

Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Owain Evans

☎ 07588 636259

owain.evans1@gmail.com

Carwyn Meredydd

☎ 07867 536102

carwynnian@hotmail.com

## Swyddogion

CADEIRYDD:

Dewi A Morgan, Park Villa,

Lôn Newydd Coetmor,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3DT ☎ 602440

dewimorgan@live.co.uk

TREFNYDD HYSBYSEBION:

Neville Hughes, 14 Pant,

Bethesda LL57 3PA ☎ 600853

nev\_hughes@btinternet.com

YSGRIFENNYDD:

Gareth Llwyd, Talgarnedd,

3 Sgwâr Buddug, Bethesda

LL57 3AH ☎ 601415

garethllwyd197@btinternet.com

TRYSORYDD:

Godfrey Northam, 4 Llwyn

Bedw, Rachub, Llanllechid

LL57 3EZ ☎ 600872

godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y LLAIS DRWY'R POST:

Owen G Jones, 1 Erw Las,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3NN ☎ 600184

post@llaisogwan.com

## Golygydd y mis

Golygydd rhifyn y mis hwn gan  
Neville Hughes.

Golygydd mis Ebrill fydd

Ieuan Wyn, Talgarreg,

Ffordd Carneddi, Bethesda, LL57 3SG.

E-bost: ieuanwyn01@gmail.com

**PWYSIG: TREFN NEWYDD  
O RIFYN IONAWR YMLAEN GOFYNNIR  
I'R DEUNYDD GYRRAEDD Y GOLYGYDD  
5 DIWRNOD YN GYNT NA'R ARFER.**

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn,  
28 Mawrth** os gwelwch yn dda. Casglu a  
dosbarthu **nos Iau, 16 Ebrill**,  
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

**DALIER SYLW: NID OES GWARANT  
Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD  
YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD  
CAU YN CAEL EI GYNNWYS.**

Archebu  
trwy'r  
post

Gwledydd Prydain – £22

Ewrop – £30

Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,  
Gwynedd LL57 3NN

post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

EGLWYS UNEDIG BETHESDA  
LLENWY'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned.  
Bob bore **dydd Iau** rhwng 10.00 o'r gloch  
a hanner dydd.



CYMRAEG

Clwb Cyfeillion  
Llais Ogwan

Gwobrau Mawrth

- £30.00 (72) Myrddyn Hughes,  
Llanfairfechan.  
£20.00 (58) Janet J. Jones, Erw Las,  
Bethesda.  
£10.00 (19) Gareth Llwyd, Sgwâr  
Buddug, Bethesda.  
£5.00 (94) Sharon Hughes, Cae Athro.

(Os am ymuno, cysylltwch â  
Neville Hughes - 600853)

Dyddiadur  
y Dyffryn

2020

Mawrth

- 21 Bore Coffi Eglwys Crist Glanogwen.  
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.  
23 Te Bach. Ysgoldy Carmel. 2.30 – 4.00.  
24 Plaid Lafur Cangen Dyffryn Ogwen.  
Cefnfaes am 7.30.  
25 Cyfarfod Blynyddol Balchder Bro  
Ogwen. Cefnfaes am 7.00.  
28 Bore Coffi Eglwys Sant Cedol, Pentir.  
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.  
31 Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen.  
Cefnfaes am 7.00  
31 Ffilm gan Ysgol Penybryn - 'Ein Bro'.  
Neuadd Ogwan.

Ebrill

- 02 Sefydliad y Merched, Carneddi. Gêm o  
Boccia. Cefnfaes am 7.00  
02 Apel Eisteddfod Genedlaethol 2021.  
Cyfarfod Agored. Y llyfrgell am 7.00  
04 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen.  
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.  
06 Merched y Wawr Tregarth. Wil Aaron.  
Festri Shiloh am 7.30.  
09 Cymdeithas Jerusalem. Mari Gwilym.  
Festri am 7.00  
11 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.  
9.30 – 1.00.  
18 Bore Coffi Cymdeithas Jerusalem.  
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.  
19 Noson gasglu a dosbarthu'r Llais.  
Cefnfaes am 6.45.

## CAPEL SHILOH TREGARTH

## DRWS AGORED

yn y festri bob bore Gwener  
10.00 – 12.00

Croeso cynnes i chi alw i mewn  
am banad, sgwrs a chwmni.

Mae Llais Ogwan ar werth  
yn y siopau isod:

Dyffryn Ogwen

Londis, Bethesda

Siop Ogwen, Bethesda

Tesco Express, Bethesda

Siop y Post, Rachub

Barbwr Ogwen, Bethesda

Bangor

Siop Forest

Siop Menai

Siop Ysbyty Gwynedd

Caernarfon Siop Richards

Porthaethwy Awen Menai


Rhiwlas Garej Beran

## Rhoddion i'r Llais

- £13 Dr. Elwyn Hughes, Ystradgynlais.  
 £5 Sandra Williams, Stryd Goronwy, Gerlan  
 £5 Di-enw.  
 £10 Tina Roberts, Maes y Garnedd, Bethesda.  
 £10 Di-enw, Carneddi.  
 £25 Er cof annwyl am Rhian Mair Roberts, Ffordd Gerlan, a fuasai'n cael ei phenblwydd ar 6 Mawrth, oddi wrth mam, Mrs. Glenys Jones, a'r teulu, Adwy'r Nant

**Diolch yn fawr.**

## Ysgol Abercaseg



### Ffair Siarter Iaith y Dreigiau caseg

Roedd yr ysgol yn gynnwrf i gyd ar ddydd Gwener 28/2/2020 a phawb yn eu coch, gwyn a gwyrdd yn barod i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Yn arwain at y diwrnod roedd plant blwyddyn 2 wedi bod yn brysur yn cynllunio a pharatoi yr holl gemau a stondinau. Roedd y plant wedi cynllunio gemau bagiau ffa, gemau adnabod baneri, gemau rygbi, peintio wyneb, peintio ewinedd, jeli coch a gwyrdd a llawer, llawer iawn mwy!

Hoffai holl blant a staff yr ysgol ddiolch yn fawr IAWN i griw blwyddyn 2 am eu holl waith caled yn paratoi yn ogystal â chynnal y ffair. Roedd yn fendigedig gweld plant hynaf yr ysgol yn tywys ac yn bod yn esiampl wych i weddill y plant.

Mae'r plant wedi llwyddo i gasglu dros £80 ac wedi penderfynu drwy bleidleisio bod hanner yr arian am ddod i'r ysgol i brynu adnoddau megis apiau Cymraeg newydd a bod hanner yr arian am fynd i elusen o'u dewis nhw.

### Caeryglchu

Gan fod disgyblion yr ysgol yn astudio'r thema Ailgyglchu, gwahodddwyd un o weithwyr Caeryglchu i ymweld â'r ysgol er mwyn cael sgwrs gyda'r disgyblion. Cafodd y plant gyfle i ofyn cwestiynau ynglŷn ag ailgyglchu yn ogystal â chael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol megis rhoi sbwriel yn y bin priodol. Roedd pawb wedi mwynhau'r gweithgareddau ac wedi ysgogi'r plant i fod esisiau dysgu mwy yn y dosbarth.

### Diwrnod Rhif NSPCC Cymru

Dathlwyd diwrnod rhif NSPCC Cymru drwy wneud gweithgareddau rhif a gwisgo dillad arbennig i'r ysgol. Cafodd y plant lawer o hwyl yn gwneud gweithgareddau megis creu coronau rhif, chwarae gemau a chreu brawddegau rhif enfawr gyda defnyddiau yn yr ardal tu allan fel y rhaglen 'Art Attack'. Diolch i bawb am eu cyfraniadau i NSPCC Cymru ac am ymuno yn hwyl y gweithgareddau rhif.

### Dydd Miwsig Cymru

Cafodd holl ddisgyblion Ysgol Abercaseg hwyl yn dathlu Dydd Miwsig Cymru drwy ganu caneuon a hwiangerddi Cymraeg yn ogystal â chwarae gemau dawnsio i Gerddoriaeth Gymraeg. Cofwch sganio'r cod QR 'Cân yr Wythnos' er mwyn gwranddo a dysgu mwy am gerddoriaeth a chaneuon Cymreig.

## Enwebiad arall i Bartneriaeth Ogwen

Mae Partneriaeth Ogwen wedi ei enwebu ac wedi cyrraedd y rhestr fer yng nghategori Cymuned Ysbrydoledig yng ngwobrau Green Heart Hero Awards y Climate Coalition.

Mae'r Green Heart Awards yn amlygu'r arwyr di-glod sy'n helpu i greu dyfodol lle nad yw'r DU yn cyfrannu at newid yn yr hinsawdd.

Mae hyn yn dilyn llwyddiant llynedd i brif swyddog Partneriaeth Ogwen, Meleri Davies. Enillodd wobwr Academi Cynladwyedd 2019 Cymru fel Eiriolydd Cynladwyedd a gwobr Regen ar lefel Prydain fel 'Green Energy Pioneer'.

Dywedodd Meleri "Ers ein sefydlu yn 2013, mae Partneriaeth Ogwen wedi tyfu o dîm o 2 i dim o 9 aelod o staff ond yn bwysicach, rydym wedi cael y cyfle a'r fraint i weithio efo'n cymuned i ddatblygu prosiectau cymunedol ac amgylcheddol sy'n dod a budd gwirioneddol i'r ardal. Mae cael ein enwebu a chyrraedd y rhestr fer ar gyfer y gwobrau yma'n annisgwyl ac yn fraint a rydym yn hynod ddiolchgar i bawb sydd wedi rhoi'n enwau ymlaen. Mae hyn yn gydnabyddiaeth o waith caled ein cymuned wrth i ni gydweithio i daclo newid hinsawdd ar lawr gwlad yma yn Nyffryn Ogwen ac edrychwn ymlaen yn arw i barhau efo'r gwaith yma'n y dyfodol agos."

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn yn swyddfa'r deillion, Bangor  
**01248 353604**

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415  
 Neville Hughes ☎ 600853

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

## Ysgol Bodfeurig

### Gweithdy Technocamps

Daeth Molly ac Andrew o dîm Technocamps, sy'n gysylltiedig â Phrifysgol Bangor, draw i'r ysgol i gynnal gweithdai TGCh, ble cafodd y plant y cyfle i feddwl yn gyfrifiadurol a chodio. Cafodd Blwyddyn 5 a 6 weithdy ble cyflwynir y cysyniadau y tu ôl i dorri codau a chryptograffeg tra chafodd Blwyddyn 1- 4 weithdy o atgyfnerthu egwyddorion meddwl yn gyfrifiannol. Pawb wedi mwynhau ac yn gobeithio cael mwy o weithdai hefo Andrew a Molly yn y dyfodol agos.



### Gair o ddiolch

Hoffem ni ddiolch i Aled Evans (tad Lewis a Ashley) a Keith Richards am rhoi eu hamser i fyny yn ystod yr hanner tymor yn gosod cegin newydd yn yr ysgol er mwyn cael mwy o le i gynnal gwersi coginio gyda'r plant. Roedd cyffro mawr gan blant a staff yr ysgol pan yn dychwelyd i'r ysgol ar ôl y gwyliau a gweld eu gegin newydd. Hoffem ni ddiolch unwaith eto i Hodwens am y rhodd o'r gegin.

### Wythnos Iechyd Meddwl Plant

Roedd y Cyngor Ysgol a Chyngor Iechyd Lles a Ffitrwydd yn llawn syniadau ar gyfer gweithgareddau Wythnos Iechyd. Aethant ati i greu gwasanaeth ar ddewrder gan ddysgu can 'this is me' i'r plant yn ystod y gwasanaeth. Cawsom wersi ar gyfeillgarwch, negeseuon neis a meddwl yn bositif am ein gilydd ac eraill yn ystod yr wythnos.

### Dosbarth Ogwen

Cawsom ymweliad gan Jess o St Johns i ddysgu'r plant sut i ddefnyddio 'defibrillator' fel rhan o'r ymgyrch roeddynt yn rhedeg 'Defib February.' Roedd yn fore addysgol i'r Adran Iau gyda phob un ohonynt yn cael gyfle i defnyddio'r 'defibrillator' a phawb yn gadael gan wybod beth i wneud mewn argyfwng.

### Cystadleuaeth Cogurdd

Bu cystadlu brwd yn yr ysgol brynhawn Gwener, Chwefror 14eg gan fod cystadleuaeth Cogurdd yn neuadd yr ysgol. Roedd plant brwdfrydig wrthi yn paratoi cebabs ffrwythau lliwgar, ac roedd bwyd pawb yn edrych ac yn blasu'n werth chweil. Daeth Izzy i'r brig ac mae hi'n mynd ymlaen i'r rownd nesaf ym Mhangor. Da iawn i bawb a fu'n cymryd rhan, a phob lwc i Izzy!

### Ymweliad PC Owain

Daeth PC Owain i'r ysgol gyda negeseuon pwysig i'r plant. Cafodd yr Adran Iau wers ar ddiogelwch y we a bwllo seibr, a chafodd plant dosbarth babanod wers ar sut i gadw eu hunain yn ddiogel. Diolch i PC Owain am y gwersi pwysig ac rydym yn edrych mlaen at ei ymweliad eto'n fuan.

### Dosbarth Idwal

Fel rhan o'r thema "Pobl y Gymuned" daeth Sioned o'r swyddfa Bost i'r ysgol i siarad gyda'r plant am ei gwaith fel postman. Cafodd y plant fwynhad yn gwisgo ei dillad, gafael mewn parseli a holi Sioned am ei gwaith. Diolch i Sioned am ymweld â'r ysgol! Yn ogystal â hyn roedd y plant yn ffodus

iawn o gael ymweliad gan dad Seth o'r Meithrin. Mae'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Achub Mynydd, ac fe ddaeth i'r ysgol i ddysgu'r plant am ei waith. Cafodd y plant y cyfle i eistedd yn y cerbyd achub mynydd yn ystod yr ymweliad.

### Dydd Miwsig Cymru

Mae plant yr ysgol yn hoff iawn o gerddoriaeth Gymraeg a pha ffordd well i ddathlu Dydd Miwsig Cymru na chael prynhawn o garioci. Roedd gwledd o ganu caneuon gan artistiaid fel Bryn Fon, Dafydd Iwan, Yws Gwynedd a'r Welsh Whisperer gyda phawb yn mwynhau.

### Dathlu Dydd Gŵyl Ddewi

Cawsom wledd o ganu, dawnsio ac adrodd brynhawn Iau, Chwefror 27 yn neuadd yr ysgol wrth i ni ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Roedd y rhieni wrth ei boddau yn gweld y plant yn canu am eu gwlad a'u hiaith yn ogystal â chlywed caneuon gan Edward H Dafis, Celt, Maharishi, Dafydd Iwan a'r Welsh Whisperer. Roedd cymysgedd o ddawnsfeydd, dawnsio gwerin, haka Cymreig ac adrodd gan y plant. Pawb yn gadael gyda gwen ar eu hwyneb.



# Gwirfoddolwr y Mis

Cyfes am gefndir gwirfoddolwyr Siop Ogwen

**Enw:** Jonathan (neu Jon) Stammers.

**Oed:** 40.

**Lle'r ydych chi'n byw?** John Street, Bethesda ers 13 mlynedd. Ces i fy magu ym Mangor.

**Diddordebau:** Fy mhlant, sgwennu, cerddoriaeth, actio, y Beibl, diwynyddiaeth, ieithoedd ac ieithyddiaeth, coginio, gwleidyddiaeth, "The Beatles".

**Ers pa pa bryd ydych chi'n gwirfoddoli yn y siop?** Ers 2 flynedd a hanner.

**Pam wnaethoch chi gychwyn gwirfoddoli?**

I ddechrau, er mwyn llenwi'r oriau rhydd rhwng mynd â'r plant i'r ysgol a'u nôl nhw. Dwi'n licio'r siop yma, mae'n gwerthu pethau diddorol a dwi'n hoffi cadw golwg ar fanylion y stoc. Mae'n dda cael allan o'r tŷ, cyfarfod pobl leol a bod yn rhan o'r gymuned. Ar ddiwrnod tawel fedrai ddarllen fy llyfra!



## Carneddi

*Rhan o deyrnged bersonol gan Iwan Llechid Owen i'r ddiweddar Alwen Eleri Hughes ar ddydd ei hangladd yng Nghapel Jerusalem - 24 Chwefror 2020.*

Un ei milltir sgwâr oedd Alwen. Anti Al.

Ganed yn Rhif 1, Tanyfoel, yn unig blentyn i Cemlyn a Dilys Hughes, a symudodd hi 'rïoed yn bell, dim ond lawr y lôn i Gilfodan, a bu'n hapus iawn i aros yno. Roedd gan Al feddwl mawr o Cilfodan! Byddai hi'n cadw llygad barcud ar yr holl fynd a dwad, oll er mwyn lles ei chymdogion, a braf gweld sawl un yma heddiw!

Roedd yna wastad groeso cynnes yng Nghilfodan, panad a shortbread cartra, a sgwrs. Braf yn y blynyddoedd diweddar oedd gweld genod ni'n chwilio am yr hen focs bisgits llawn dominos pan oedda ni yno, yn union fel fuo ninnau'n gneud yn blant pan yn mynd yno efo Nain.

'Roedd Al yn un dda am gadw cysylltiad efo'r llu o ffrindiau a theulu estynedig oedd ganddi.

'Roedd wedi teithio'n eang i bedwar ban byd - at deulu

yng Nghanada, i Awstralia i briodasau ein teulu ni, ac i nifer o wledydd nes adref gyda ffrindiau a theulu.

'Roedd hi'n fam fedydd i Glyn ac roedd y ddau'n dipyn o ffrindia, yn cael sgwrsiau ffôn rheolaidd dros y blynyddoedd. 'Roedd hi mor falch ei weld pan ddaeth o adra ar ymweliad diweddar. 'Roedd hi hefyd yn falch iawn o fod yn fam fedydd i Siân; a mae Siân a'r teulu, yn eu tro, wedi bod yn driw iawn iddi hithau dros y blynyddoedd.

Ei phleser arall oedd gweu - roedd ei gwaith llaw yn gywir a chywrain, wedi ennill gwobrau lu mewn sioe a steddfod, a doedd dim yn rhoi mwy o bleser iddi na gweu dilledyn i fabi newydd yn ei chylch, neu i achosion da fel Ysbyty Gwynedd.

Fe gofwn ni Alwen fel person caredig, hael, trwsiadus a smart bob amser, yn ffyddlon i Gapel Carneddi, ac yma yn Jerusalem ers i'r Carneddi gau.

Ia, dynas ei milltir sgwâr oedd Anti Al, a 'da ni'n falch iawn o hynny - mae gennym i gyd atgofion melys ohoni.

### CLWB CAMERA DYFFRYN OGWEN

Lleoliad: Canolfan Cefnfaes, Bethesda  
7.15yh - 9.30yh

#### RHAGLEN EBRILL 2020

Ebrill 1: 'Noson yng nghwmni Gareth Jenkins'

Ebrill 15: 'Gweithio Tuag at Ragoriaeth' - Sian Davies

Ebrill 29: Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol



Gweler gwefan y clwb am ragor o wybodaeth a lluniau gan aelodau



[www.dyffrynogwencamera.co.uk](http://www.dyffrynogwencamera.co.uk)

### Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen

11.00 -12.00, 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's

Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131

**JR** SGAFFALDIAU Cyf. **JR**  
SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA,  
GWYNEDD LL57 3NE

ebost: [sales@jrscaffolding.co.uk](mailto:sales@jrscaffolding.co.uk)

Ffôn/Ffacs:

**01248 601754**

07770 568743 (symudol)



## Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr, Mynydd  
Llandygái ☎ 600744

### Ysbyty

Anfonwn ein cofon at Mrs. Joyce Tong sydd wedi cael llaw-driniaeth fawr yn yr ysbyty yn Lerpwl. Da clywed ei bod adref erbyn hyn. Cymerwch ofal. Rydym yn meddwl amdanoch gyda llawer o gariad.

### Diolch

Dymuna Mrs. Joyce Tong ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag ati. Diolch i Ysbyty Lerpwl, ffrindiau a'r teulu. Diolch yn fawr i chwi i gyd!

### Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu Mrs. Margaret Hughes, Ffrancon View, yn eu profedigaeth. Y plant, Kathryn, Valmai, Adrian a Mandy, a'r wŷrion, Morgan a Steffan. Rydym yn meddwl amdanoch i gyd.

### Eglwys St. Ann a St. Mair

Mawrth 22<sup>ain</sup> - 9.30. Sul y Fam - Cymun Bendigaid

Mawrth 29<sup>ain</sup> - 9.30. Cymun Bendigaid - Eglwys St. Mair, Tregarth

(Yr unig gwasanaeth yn y Plwyf y Sul hwn)

Ebrill 5<sup>ed</sup> - 9.30. Cymun Bendigaid

Ebrill 9<sup>ed</sup> - 6 y.h. Gwasanaeth Dydd Iau Cablyd (St. Cedol, Pentir)

Ebrill 10<sup>ed</sup> - 2p.m. Dydd Gwener y Groglith (Eglwys Crist, Glanogwen)

Ebrill 12<sup>ed</sup> - 9.30. Sul y Pasg - Cymun Bendigaid

Croeso cynnes i bawb ymuno a ni yn ein gwasanaethau dros Wyl y Pasg.

Cofw'n am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofon cywiraf atoch i gyd.

### "FFAIR BASG" yn y NEUADD

GOFFA, Mynydd Llandygai

Sadwrn, 4<sup>ydd</sup> Ebrill,

11.00 - 2.00 p.m.

Bydd lluniaeth ysgafn ar gael dros yr awr ginio ynghyd ag amrywiaeth o stondinau.

Croeso cynnes i bawb.

## THEATR BARA CAWS

yn cyflwyno

### DRAENEN DDU

cyfieithiad **Angharad Tomos**  
o ddrama Charley Miles

Daw'r teitl o sgwrs rhwng dau gymeriad am y ddraenen ddu sy'n blanhigyn tu hwnt o anodd cael gwared ohono fo. Mae nhw'n trafod sut mae'r hyn sy'n ymddangos fel dau blanhigyn ar yr wyneb yn tarddu o'r un lle, a bron yn amhosib ei ddadwreiddio. A dyma un o broblemau dwysaf cefn gwlad heddiw.

Ddylen ni aros neu adael? Datblygu neu warchod? Beth ddaw o'n cymunedau ni, a chyfrifoldeb pwy yw eu parhad?

Hen, hen thema sydd yma, ond mae'n cael ei chyflwyno i genhedlaeth newydd mewn modd annwyl, doniol a dirdynnol.

Y ddau yn y ddrama yw'r plant cyntaf sy'n cael eu geni yn y pentref ers ugain mlynedd. Wrth iddynt dyfu mae'r

cyfrifoldeb yn disgyn ar eu hysgwyddau nhw. Mae Hi yn gadael, a'n dod yn ôl o bryd i'w gilydd. Mae O yn aros, a'n gweithio ar y fferm. Wrth iddynt dyfu'n hŷn, mae nhw'n cwrdd yn achlysurol - amser angladd, priodas neu dros y Dolig. Yn ei dychymyg Hi, mae bro ei phlentyndod yn aros. Iddo Fo, mae'n dyst i'r newid yn ddyddiol. Mae'r hen wynebau'n marw, a rhai dieithr yn dod yn eu lle. Mae sawl tŷ ar werth, tai haf yn britho'r ardal, ac mae enwau ffermydd a chaeau dan fygythiad.

**YDA CHI'N GWYBOD AM ENWAU LLEOL SYDD WEDI EU NEWID YN EICH CYMUNED CHI? YDA CHI WEDI GORFOD CWFFIO DROS YR HAWL I WRTHOD? FASA NI WRTH EIN BODDAU TASA CHI'N GYRRU ENGHREIFFTIAU I NI GAEL CYNNWYS FAINT FEDRWN NI YN Y RHAGLEN.**

Gyrrwch at [betsan@theatrbaracaws.com](mailto:betsan@theatrbaracaws.com) a diolch rhag blaen am gyfrannu.

Taith o amgylch cymunedau Cymru rhwng Mai 12 - Meh. 6. (Neuadd Ogwen - 16 Mai.)  
**Cast:** Rhian Blythe a Rhys ap Trefor

# Chwarel Penrhyn - Ymgynghoriad Cyhoeddus

Mae Welsh Slate ar hyn o bryd yn paratoi

CAIS CYNLLUNIO AM ESTYNIAD BYCHAN I FFÎN GOGLEDD ORLLEWIN  
Y CHWAREL YNGHYD Â NEWID PROFFIL DWY DOMEN



Hoffem eich gwahodd i weld ein bwriadau ac fe fyddwn yn cynnal y digwyddiadau ymgynghorol cyhoeddus canlynol:


**1 Ebrill** - Neuadd Ogwen, Bethesda. 2.00yp hyd at 7.00yh

**2 Ebrill** - Neuadd Goffa, Mynydd Llandygai. 2.00yp hyd at 6.00yh

Byddem yn croesawu'r cyfle i egluro yr hyn sydd gennym dan sylw ac felly byddem yn falch o'ch gweld yno. Os yn methu dod, ac angen rhagor o wybodaeth arnoch, mae croeso i chi ein e-bostio ar [enquiries@welshslate.com](mailto:enquiries@welshslate.com)



# 1917 – Ffilm gan Sam Mendes



(Diolch i Jo Arwel Hughes, Yr Wyddgrug am hanes y cardiau post a yrrwyd o'r ffosydd i Dregarth.)

Enillodd y ffilm hon nifer o wobrau BAFTA yn ddiweddar. Mae'n dangos erchylltra amgylchiadau'r ffosydd yn Ffrainc yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae hefyd yn clodfori dewrder unigolion oedd yn wynebu pob math o fygythiadau i'w diogelwch a'u bywydau. I'r rhai ohonoch a welodd y ffilm, fe gofiwch yr olygfa olaf o'r milwr ifanc Prydeinig a lwyddodd i oroesi'r holl beryglon, er wedi llwyr ymladd, yn darllen cefn cerdyn gan ei deulu yn erfyn arno i ddychwelyd adref yn ddiogel.

Fel miloedd o Gymry ifanc eraill bu fy nhaid, Joseph Richard Roberts yn y

ffosydd hynny hefyd ac yn ddealladwy yn dewis peidio ag adrodd am ei brofiadau hunllefus wrth ei deulu. Ond wrth glirio eiddo fy niweddar fam – Edith Hughes, Erw Faen – fe ddarganfyddais tua 30 o gardiau post a yrrwyd ganddo o'r ffosydd i'w deulu yn Nhregarth. Doedd mam erioed wedi eu dangos i ni'r hogia. Cardiau wedi eu brodio'n gywain gan ferched yn Ffrainc oeddynt, ac er mai Cymraeg oedd mamiaith taid, oherwydd y rheolau sensoriaeth, yn Saesneg oedd ei negeseuon, ar wahân i un! Yn y neges Gymraeg i'w fam, roedd wedi cynnwys pennill sy'n cyffwrdd y galon, ac ar ôl gweld y ffilm 1917, gallaf lwyr werthfawrogi arwyddocâd y cardiau hyn, a rhannu eu cynnwys gyda fy nheulu ac eraill.

## Llythyrau

### Cyflwynwyr yr Orsedd

Oes gennych chi, berthynas neu ffrind ddiddordeb mewn cymryd rhan yn seremonïau Gorsedd y Beirdd Eisteddfod 2021? Wel dyma eich cyfle! Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifonydd rhwng 30 Gorffennaf a 7 Awst 2021 ar dir ym Moduan ger Pwllheli. Mae Gorsedd y Beirdd yn chwilio am bersonau o Llŷn, Eifonydd neu Arfon i gyflawni'r swyddi canlynol yn Seremoni'r Cyhoeddi eleni a gynhelir ym Mhorthmadog ar 27 Mehefin yn ogystal â seremonïau'r Orsedd yn ystod wythnos yr Eisteddfod y flwyddyn nesaf:

- **Cyflwynydd y Corn Hirias** – oedolyn (gwryw neu fenyw) sy'n dod o Llŷn, Eifonydd neu Arfon, neu yn byw yno ar hyn o bryd.
- **Macwyaid yr Orsedd** – Bechgyn sydd ar hyn o bryd ym mlwyddyn 6 yn ysgolion y dalgylch
- **Cyflwynydd y Flodeued a Chynnyrch y Meysydd** – person ifanc (merch neu fachgen) tua 17-18 oed sy'n dod o Llŷn, Eifonydd neu Arfon neu'n mynychu Ysgol / Coleg yn yr ardal
- **Llawforynion yr Orsedd** – Merched sydd ar hyn o bryd ym mlwyddyn 6 yn ysgolion y dalgylch

## Y Gerlan

**Diolch i Heledd Selwyn am ei chyfraniad. Rydym yn chwilio am ohebydd newydd, felly os oes diddordeb gennych cysylltwch â Llais Ogwan.**

### Dau Benblwydd Arbennig

Penblwydd hapus arbennig yn 50oed i Tony Owen, Llwyn Rhandir, Ciltwllan. Gobeithio dy fod wedi mwynhau'r dathlu yn Ffrainc.

Un arall fu'n dathlu ydi Iago Davies, Tŷ Dŵr. Mae Iago ar hyn o bryd yn gweithio / astudio yng Ngwlad Belg. Gobeithio iti fwynhau dathlu dy benblwydd yn 21.

### Theatr Ieuenticid

Llongyfarchiadau i Dyddgu Glyn, Rallt Uchaf. Mae wedi ei dewis i fod yn aelod o Theatr Genedlaethol Ieuenticid Cymru. Edrychwn ymlaen i dy weld ar y llwyfan Dyddgu a phob lwc iti.

# MODURDY FFRYDLAS



Profion  
M.O.T.

Perchennog  
A. LI. Williams

**Stryd Fawr, Bethesda**

♦ PROFION M.O.T. ♦

**GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO  
♦ TEIARS A BATRIS ♦  
GWASANAETH TORRI I LAWR  
NEU DDAMWAIN**

☎ 600723

Ffacs: 605068

Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr fynychu clyweliadau a gynhelir yn lleol. Gall unrhyw un sydd â diddordeb ac sy'n byw neu'n mynychu ysgol o fewn dalgylch yr Eisteddfod ymgeisio, a cheir y ffurflenni cais o Swyddfa'r Eisteddfod (Ffôn: 0845 409 0400; elinor@eisteddfod.org.uk) a'i dychwelyd i Swyddfa'r Eisteddfod, Uned 15, Parc Busnes Yr Wyddgrug Ffordd Wreccsam, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1XP fan bellaf erbyn 3 Ebrill 2020.

## Ysgol Llanllechid

### Cydymdeimlwn

Anfonwn ein cydymdeimlad dwys at deulu Mrs Mona Macdonald. Bu farw mam Mrs Macdonald yn ysbyty Bryn Beryl yn ddiweddar. Anfonwn ein cofon cynnes at y teulu i gyd. Cydymdeimlwn yn ogystal â Mr Dafydd Wyn Jones, a fu'n gweithio yn Ysgol Llanllechid ddwy flynedd yn ôl gyda disgyblion blwyddyn chwech. Anfonwn ein cofon atoch fel teulu yn Sir Feirionnydd. Gwraig arbennig oedd dy fam Dafydd, a bydd colled aruthrol ar ei hôl. Cofon annwyl.

### Brysia Wella

Ar hyn o bryd, mae Ms Lliwen yn Ysbyty Glan Clwyd yn derbyn triniaeth. Cofon cynnes atoch Ms Lliwen gan bawb yn Ysgol Llanllechid. Cynhelir te prynhawn ar brynhawn Sul, Ebrill 19 yn Neuadd Ysgol Llanllechid i godi arian tuag at gronfa Ms Lliwen. Mwy o fanylion i ddilyn!

### Ela

Braf yw cael dweud fod Ela Williams yn dda iawn yn dilyn cyfnod byr yn yr ysbyty – gwên ar ei hwyneb bach bob dydd. Da'r hogan!

### Bingo Pasg

Cofwch am ein Bingo Pasg, a gynhelir ar Fawrth 25, yn y Clwb Criced. Diolch yn fawr i'n Cyfeillion am drefnu ac i Sara Roberts am ein cynorthwyo.

### Clocio

Braf oedd croesawu Tudur Phillips i ddysgu sgil hollol newydd i'n disgyblion. Edrychwn ymlaen at ei wahodd atom eto'n fuan. Mae'n syndod pa mor ffyt y mae rhaid i chi fod i glocio!!

### Cerdyn Coch i Hiliaeth

Daeth Eryl at ein blwyddyn 6, i gynnal sesiwn 'Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth'. Dyma elusen a sefydlwyd ym mis Ionawr 1996, gan beldroediwr enwog o'r enw Shaka Hislop, gyda'r nôd o waredu hiliaeth o'n



### Clwb Mentergarwch

Diolch i Ms Gwenlli Haf am ei gwaith yn arwain ein Clwb Mentergarwch. Bu'r aelodau yn brysur yn creu bwyd i'r adar a gorchudd cwyw gwenyn mewn clwb ar ôl ysgol. Gwerthwyd y cynnyrch mewn dim o dro, wrth giat yr ysgol! Diolch i bawb am gefnogi.

tir yn gyfangwbl. Treuliwyd prynhawn difyr yn y dosbarth yn herio sterioiteipio, gan bwysleisio'r angen i hyrwyddo parch a chyfle cyfartal tuag at ein cyd-ddynion, beth bynnag fo eu tras. Un o'r prif themau oedd ddatlu gwahaniaeth, yn hytrach nag edrych ar wahaniaeth mewn modd negyddol. Cafwyd gwersi pwysig ynglŷn â'r angen i ddangos cynhesrwydd a phositifrwydd tuag at un ag oll, a hynny heb fod yn feirniadol. Negeseuon hollbwysig!

### Ymweliad â Maes Awyr Caernarfon

Fel rhan o'u gwaith thema ar awyrennau, cafodd plant dosbarth Mrs Marian Jones ddiwrnod i'w gofio, pan gawsant fynd i weld yr hen awyrennau yn Amgueddfa Dinas Dinlle. Roedd yn brofiad gwerth chweil cael eistedd yn yr hen awyrennau. Cafwyd croeso gwych gan griw'r Ambiwlans Awyr hefyd, a chawsom wybod pa mor gyflym y mae'r hofrenydd coch yn cyrraedd Ysbyty Gwynedd, Alder Hey a Chaerdydd! Dysgwyd am yr hyn sydd gan y parafeddygon yn y bagiau trwm, a chael cyfle i eistedd yn yr ambiwlans awyr ei hun! Diwrnod gwych!



### Gwyl Ddewi

Bu disgyblion Mrs Bethan Jones yn brysur yn gwneud cawl cennin a fu'n coginio'n araf, braf yn y dosbarth, a'r arogl hyfryd yn treiddio drwy'r ysgol gyfan. Wrth goginio, dysgwyd y dywediad hwn ar y côf: "Gwisg genhinen yn dy gap a gwisg hi yn dy galon." Cafwyd bore cyfan o adloniant oedd

yn dathlu ein hunaniaeth a'n Cymreictod. Cafwyd amrywiaeth eang o eitemau ac mae'n anodd crynhoi'r cyfan mewn ychydig eiriau! Adroddodd y disgyblion doreth o farddoniaeth oedd ar ein tafod leferydd ni, pan oedden ni'n blant, Soned Y Llwynog; Fi'n nos fan hyn; Ffarwel i Gwm Penllafar; Gwinllan a Roddwyd; Modryb Elin Ennog; Mwyn

y wên sydd o'i mewn hi; Rhwydd Gamwr... Cafwyd gwledd o'n diwylliant ni fel Cymry, a'r rhieni a ffrindiau'r ysgol yn llawn clôd. Dywedodd y Prifardd Ieuan Wyn, "Rhagorol! Roedd y cyfan yn batrwm i ysgolion trwy Gymru!" Diolch i bawb am eu cefnogaeth hael a diolch i'r holl staff am eu hymroddiad, ac i'r athrawon am y gwobrau raffl.

### William Ellis Williams

Yn ystod y cyflwyniadau Gŵyl Ddewi, lle bu'r plant yn trin a thrafod pob math o gymeriadau o'r ardal, traddodwyd hanes William Ellis Williams, peiriannydd o fri o Rachub. Bydd y gân gyfan i'w chlywed ar gyfrif Trydar yr ysgol yn fuan, ond am rwan, dyma i chi bennill gyntaf y gân wreiddiol â ysgrifennwyd gan Mrs Marian Jones:-

### Cân William Ellis Williams

"I ffwrdd a ti i chwarae " oedd geiriau'i fam a'i dad  
"Dos i ben Moel Faban i weld mor hardd yw'r wlad"  
ond sleifo'n slei wnaeth William  
i mewn i'r sied ar garlam  
I weithio a phendroni, - a gwirioni!!!  
Ar y rhifau, patrymau, syniadau, adeiladau,  
Peiriannau, trionglau, problemau, mesuriadau  
di ri...

Roedd ei ben o'n y cymylau bach gwynion  
Yn meddwl a meddwl am syniadau bach gwirion  
Roedd y llanc o Dyddyn Canol yn fachgen go wahanol.....

### Clwb Hanes

Daeth Mr Dilwyn Pritchard, o Rachub draw i'r ysgol i drwytho disgyblion Bl 3 yn hanes William Ellis Williams. Diolch yn fawr i chi Dilwyn am ein cynorthwyo fel hyn.

### Golchi Dwylo

Yng nghanol y storm Coronavirus, pwysleisir yr angen i olchi dwylo ac yna gwneud yn siwr eu bod yn sgleinio fel swllt, o dan y twcan!





## Ysgol Tregarth

### Ymweliad arbennig

Fel rhan o'r gwaith ar y thema Cymru, croesawyd Mr Hywel Williams (taid Elliw) i ddsbarth Ffrydlas. Cyflwynodd i'r plant brofiadau a straeon difyr am rai o arwyr Cymru a fu'n brwydro'n ddewr dros hawliau'r iaith fel aelodau o Gymdeithas yr Iaith. Peintiodd lun byw o'r dulliau protestio, o'r driniaeth gan yr heddlu a barnwyr yn y llys, heb son am deithio mewn Black Maria! Cawsom ganu, a chwerthin a dysgu. Profiad y bydd y plant yn ei gofio ac yn eu hysbrydoli i ddefnyddio'u Cymraeg. Diolch iddo a phenblwydd hapus iawn iddo.



### Gwasasnaeth Dosbarth

Croesawyd rhieni a theuluoedd disgyblion dosbarth Ffrydlas i'r ysgol fore dydd Gwener Chwefror 14 eg. Cyflwynwyd iddynt beth o waith y dosbarth ar y thema Cymru. Roedd canmoliaeth mawr i gyflwyniadau proffesiynol y plant, a'u gwybodaeth drylwyr o hanes Cymru o gyfnod Llywelyn hyd at heddiw!



Cawsom gyfle i weld Bethan yn ei gwisg draddodiadol a wnaed ar batrwm un draddodiadol o Nant Ffrancon. Bu Huw yn

chwarae'r Delyn gettaidd, y Delyn deires, y crwth, y pibgorn a'r ffidil gan esbonio eu cefndir, eu datblygiad a hanes rhai o'r

alawon a chwaraeodd. Profiad bendigedig i bob un plentyn.

### Dydd Miwsig Cymru

Fel rhan o'n gwaith Siarter Iaith maer ysgol yn gwrando ar lawer o gerddoriaeth Cymraeg yn wythnosol. Rydym yn dysgu am artistiaid Cymraeg ac am wahanol fathau o gerddoriaeth. Braff felly oedd cael dathlu dydd miwsig Cymru wrth ddysgu am ein hoff artistiaid a gwrando ar fwy o gerddoriaeth! Diolch o galon i'r Cyngor Ysgol a'r Sgwad Cymraeg am gynnal diwrnod lliwgar a hwyliog. Mae'r ysgol wedi codi £200 yn ystod y dydd drwy werthu raffl cerddoriaeth Cymraeg, gwahodd y plant i wisgo fel eu hoff artist Cymraeg, yn ogystal â gwerthu llawer o gacennau cri. Diolch i'r rhieni am baratoi'r cacennau. Bydd yr ysgol yn defnyddio'r arian er mwyn prynu offer cerddoriaeth.

### Cyngerdd Dathlu Dydd Gŵyl Dewi

Brynhawn dydd Gwener cynhaliwyd cyngerdd yn Neuadd yr ysgol i ddathlu Gŵyl Ddewi. Braff oedd gweld y Neuadd yn orlawn o rieni a ffrindiau. Yn ystod y cyngerdd cyflwynodd pob dosbarth eitemau amrywiol, cafwyd canu torfol yn cynnwys alawon gwerin, caneuon ysgafn a chloi gyda datganiad ysbrydoledig o'r anthem genedlaethol. Gwnaed llawer o'r trefniadau gan y cyngor ysgol, gan gynnwys gwerthu'r tocynnau raffl ac fe enillodd un person lwcus hamper o nwyddau Cymreig. Hoffem ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.



### Traddodiadau Cymru

Dydd Mawrth y 3ydd treuliodd Huw a Bethan Roberts ddiwrnod cyfan yn ein cwmni. Yn ystod y dydd cafodd pob dosbarth weithdy yn dysgu am offerynnau traddodiadol Cymreig, alawon traddodiadol, ac ambell ddawns werin hefyd.

### Mewn Cymeriad

Cafodd disgyblion dosbarthiadau Ffrydlas ac Ogwen fore cynhyrfus iawn pan ddaeth cwmni 'Mewn Cymeriad' a'u cyflwyniad dramatig am Llywelyn ein Llyw Olaf i ymweld â'r ysgol. Drwy gymryd rhan weithredol yn y cyflwyniad fe ddysgodd pawb am fywyd y tywysog Cymreig. Bore bendigedig, ac rydym yn edrych ymlaen yn barod i'w croesawu'n ôl unwaith yn rhagor cyn bo hir.

# 200?

## Bethesda – ein pentref bach ni.

(Hen dro ffadiracs fod pawb wedi anghofio fod ein pentra bach ni yn dathlu ei ddau can mlwyddiant eleni, ac mae'n siwr y byddai pob pentref arall yng Nghymru yn falch o ddatlu penblwydd o'r fath. Ond mae degymwyr y mintis a'r annis o'r farn nad hwn yw'r dyddiad cywir, ond yn hytrach 1823 fyddai'r flwyddyn. Gwell felly ddyfynnu arch hanesydd Dyffryn Ogwen, Hugh Derfel Hughes, yn ei gyfrol werthfawr Hynafiaethau Llandegai a Llanllechid (1866). Wrth drafod enwad yr Annibynnwyr dywed y canlynol – 'O'r diwedd yn 1820, codasant gapel o'r tu dwyrain i Ogwen mewn lle a elwid y Wern uchaf, yr hwn ar ddydd ei agoriad a alwyd yn Bethesda, ac a roddodd ei enw ar y pentref presenol, pan nad oedd yno cyn hynny ond dau dŷ, sef y Star a thŷ J. Williams, gynt o Cochwillan'. Bydded i'r holltwyr blew benderfynu ar y dyddiad cywir ond dyma bill bach i lenwi bwlch a chodi ymwybyddiaeth yn y Llais.)

Mae cynllun pob pentref yn hynod debyg i jig-so, gyda phob rhan yn plethu i'w gilydd i greu'r cyfanwaith cyfan, neu, fel a ddigwydd yn aml, mae un darn ar goll i'w lenwi gan ddarn newydd yn y man sy'n newid ychydig ar y patrwm gwreiddiol. Nid yw datblygiad pentref Bethesda yn ystod dau can mlynedd cwta ei fodolaeth yn eithriad i batrymau datblygiad y rhelyw o bentrefi Cymru o'r un cyfnod neu, o ran hynny, i gyfuno y jig so fel cymhariaeth. Ym Methesda y deinamo a oedd yn rheoli datblygiad y pentref drwy gydol y 19g oedd esblygiad chwarel y Penrhyn i fod yn un o chwareli llechi mwyaf y byd, ac yn sgil hynny yn creu gofyn cynyddol am lety i'w gweithlu.

Cyn bod pentref ym Methesda yr oedd dau lwybr yn ymestyn drwy blwyf Llanllechid; y cyntaf yn cyrraedd o Lanllechid i Carneddi ac yn gwasanaethu nifer o dyddynnod ar lawr y dyffryn gan gynnwys Penybryn, Garneddwen, Pant y Ffrydlas ac Abercaseg; cyrhaeddai'r ail lwybr i Goetmor o Gochwillan gan ymuno gyda'r cyntaf ym Mhenybryn. Cynigiai y ddau lwybr fframwaith i ddatblygiadau cynharaf egin bentref y dyfodol, a gellir priodoli patrwm llinynnol y tai cyntaf o Lidiart y Gweunydd hyd at Gapel Carneddi i gyfnod cyn adeiladu'r capel yn 1816.

Y datblygiad sylfaenol i sefydlu'r pentref oedd adeiladu ffordd bost Telford yn 1820 a olygodd agor mynediad i lain mawr o dir rhwng Pont y Tŵr a Phont y Pandy gyda'r rhan helaethaf ohono mewn mediant annibynnol i stad y Penrhyn. Byddai yn dipyn o sioc i Thomas Telford pe sylweddolai mai ef oedd sylfaenydd y pentref ac mae'n dda ystyried mai fel Bethesda yng ngwlad Cannan yr enwyd y pentref ar ôl capel mawr

yr Annibynnwyr ac nid fel Telfordville neu rhyw hen enw tebyg. Ychydig flynyddoedd yn gynharach yn 1794 yr oedd, Owen Ellis, ffermwr cefnog a phrydleswr fferm fawr Cefnfaes i'r dwyrain o Dalybont, wedi prynu tyddyn Cilfoden Isaf am £735 heb fawr sylweddoli bryd hynny mai y llain serth a chreigiog hwn oedd i ddatblygu yn gnewyllyn canolog y pentref o 1820 ymlaen. Estynnai'r tir o Ffordd Carneddi yn y dwyrain i lan Afon Ogwen yn y gorllewin, ac wedi ei gywasgu rhwng tiroedd stad Coetmor i'r gogledd a stad y Penrhyn i'r de. Datblygwyd y cnewyllyn mewn dwy ran gyda rhan y gorllewin yn creu y stryd fawr yn dilyn heol Telford, a rhan y dwyrain yn arwain i adeiladu nifer o resi tai gweithiol unffurf a gwael eu hadeiladwaith yn ardal Brynteg a Carneddi. Rhyngddynt, yn ffwng diwydiannol ymwithiol, tyfodd chwarel lechi Pantdreiniog gyda'i domennydd rwbwl ansefydlog a'i dwll dwfn bygythiol yn llethu datblygu'r cnewyllyn yn ganolbwynt dinesig unol. Datblygodd y Stryd Fawr yn brif ganolfan marchnata'r pentref ac ar ei chyrion tyfodd stad ddiwydiannol fechan yng Nghae Star, ac ar yr hen lwybr o Goetmor stryd o dai gweithiol Bryntirion, tra yng nghysgod y stryd fawr datblygodd terasau unffurf Penygraig, Twr a Glanrafon, a phob datblygiad wedi ei werthu neu ei lesu gan deulu Ellisiaid y Cefnfaes.

Yn 1854 drwy ddeddf gwlad awdurdodwyd Ddeddf Gwelliant Bethesda ac etholwyd nifer o barchusion yr ardal i ffurfio Comisiynwyr Gwelliant Bethesda, math o egin gyngor gwarcheidiol i'r pentref, dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Penrhyn. Cyfrannodd ef £1000 tuag at wella gwasanaethau'r pentref a chyflwynwyd cynlluniau ar gyfer cyflenwi

**BYSUS**  
*D. J. Owens*  
**RHIWLAS**


**01248 361044 a 07771 634195**



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER  
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -  
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATÍ.

**Bysus Gwyrdd Rhiwlas**

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY  
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS



**Hywel Williams**  
Aelod Seneddol  
Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**  
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

**Swyddfa Etholaeth**, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR  
☎ (01248) 372 948

**Swyddfa Etholaeth**, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE  
☎ (01286) 672 076

[williamshy@parliament.uk](mailto:williamshy@parliament.uk)



**Ogwen**  
Adferiad Corfforol  
Physical Rehabilitation

**Proffesiynol, diogel a chyfrinachol**  
**LLEDDFU POEN** Cefn, cyhyrau, esgryn,  
cymalau, a thensiwn cur pen

**Eli Lichtenstein**  
☎ 07743373895 ✉ [Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com](mailto:Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com)

dŵr yfed, carthffosiaeth, nwy a goleuadau i'r pentref. Golygodd y ddeddf hefyd gyflwyno gwell safonau adeiladu tai gan ddwyn sylw at ddiffygion y terasau salw ar dir stad y Cefnfaes. Yn cyfateb fwy neu lai i'r safonau newydd adeiladwyd rhesdai urddasol Ogwen Teras i addurno mynediad y de i'r pentref gan ei gynllunio ar dro i ymestyn rhwng capel Bethesda a gwesty'r Douglas Arms. Datblygiad ar dir y Penrhyn ydoedd hwn ac yn gysail iddo adeiladwyd capel mawreddog Jerusalem yn 1841 ar un ochr y ffordd gan ychwanegu eglwys Glanogwen at y cynllun yn 1856. Datblygiad arwyddocaol arall sy'n cyfateb i'r cyfnod hwn oedd i stad y Penrhyn brynu hen stad Coetmor yn 1855 a thrwy hynny ganiatáu i rym mwyaf pwerus yr ardal amgylchynu y cnewyllyn annibynnol gwreiddiol. O hyn allan mae holl ddatblygiadau mwyaf arwyddocaol gweddill y ganrif i ddigwydd drwy nawdd stad y Penrhyn.

Hen fferm Penybryn oedd canolbwynt y datblygiad nesaf sy'n perthyn i gyfnod cythryblus yn hanes Dyffryn Ogwen. Yn 1864 yr oedd cysylltiadau diwydiannol yn chwarae y Penrhyn yn bur fregus ac arweiniodd hyn at streic a barhaodd am wythnos ym mis Awst y flwyddyn honno. Efallai mai cyd ddigwyddiad oedd i lythyr ymddangos yn y wasg yn y mis Rhagfyr canlynol yn canmol haelioni Barwn Cyntaf y Penrhyn yn adeiladu tai o safon arbennig ar gyfer trigolion y pentref. Cyfeirio mae'r llythyr at y datblygiad uchelgeisiol a gynlluniwyd yn driongl o dai pâr a gerddi sylweddol yn gysylltiedig â hwy a amgylchynodd yr hen fferm, ar y naill law allt Penybryn ac yn Garneddwen a Ffordd Pantglas. Yr oedd cadernid a ffresni'r tai yn gyferbyniad goleuedig i foelni llwyd Brynteg a'i gyffiniau.

Y cam nesaf yn natblygiad y pentref oedd cynllunio harddach mynediad i begwn gogledd y stryd fawr. Y symbyliad allweddol oedd adeiladu gorsaf drenau sylweddol ei maint yn 1884 yn derminws i reilffordd genedlaethol yr LNWR ar domennydd rwbel hen chwarel lechi Llety'r Adar. Fel ar ddechrau'r ganrif pan gysylltwyd Bethesda gyntaf gyda phrifordd genedlaethol, felly hefyd ar ddiwedd y ganrif unwyd y pentref gyda chylfundrefn drafnidiaeth oedd yr un mor allweddol bwysig i'w ffyniant economaidd ac i'w delwedd gymdeithasol, cysylltiad seicolegol bwysig yr oedd aelodau'r Bwrdd Lleol wedi brwydro i'w wireddu ers nifer o flynyddoedd. Arweiniodd hyn at adeiladu nifer

o derasau tai newydd ar naill ochr y briffordd ac i'r teras mwyaf mawreddog ohonynt oll, Penrhyn Teras, a fyddai'n gyflwyniad teilwng i'r Stryd Fawr fel ei gymar tebyg yn Ogwen Teras ym mhen arall y pentref. Ar derfyn y ganrif digwyddodd un newid gweinyddol yn hanes y pentref pan sefydlwyd Cyngor Dinesig Bethesda yn 1895 i gymryd lle yr hen Fwrdd Lleol. Y corff hwn felly a oedd i awdurdodi datblygiadau pwysicaf y ganrif a ddilynodd.

Un o ddatblygiadau cynharaf y ganrif oedd agor llwybr newydd i redeg o'r ffordd bost ger Penrhyn Teras i Goetmor a chyfeiriad Hen Barc yn y dwyrain. Lôn Newydd Coetmor oedd y fynedfa a roddai hwylustod ar y cyntaf i gyrraedd yr Ysgol Sir a chartref W. J. Parry yn Coetmor Hall, ond erbyn tri a phedwar degau'r ganrif a oedd yn bennaf hwylusydd i ddatblygu stadau tai preifat a chymdeithasol yng Nghoetmor a Maes Coetmor. Datblygiadau tebyg a oedd i ddigwydd ar orlifdir afonydd y Gaseg a'r Ffrydlas ym mhen deheuol y pentref, sef yn y rhannau hynny o'r ardal a fyddai, o safbwynt daearyddol, yn llawer mwy addas i leoliad y pentref onid i resymau cymdeithasol ganoli'r datblygiad ar safle annibynnol, ond ffisegol anoddach, yn stad y Cefnfaes. Ar y llwyfandir diddymwyd caeau hen dyddynnod Garneddwen, Pant Ffrydlas ac Abercaseg ac adeiladwyd arnynt stadau cyngor Adwy'r Nant yn y tri degau ac yn ddiweddarach yn y pumdegau stadau sylweddol eu maint yn Glanffrydlas a Glanogwen.

Datblygiad pwysicaf y ganrif bur debyg oedd penderfyniad y Swyddfa Gymreig bryd hynny i ariannu symud chwarel Pantdreiniog yn ei chyfanrwydd o ganol y pentref, Cwblhawyd y cynllun yn ystod y chwech degau ac er mor ddymunol oedd cael gwared o hagruch afler y tomennydd a pheryglon y twll, eto gadawodd y glanhau ddiffeithwch bron yr un mor afler a'i ragflaenydd diwydiannol yng nghanol y pentref. Tasg cynllunwyr yr unfed ganrif ar hugain fydd adnewyddu canolbwynt mwy addas i bentref Bethesda na'r borfa ddiffaith sy'n perchnogi'r safle yn bresennol. Cynllunwyr Cyngor Gwynedd biau'r cyfrifoldeb i wneud hynny a bellach mae annibyniaeth pentref Bethesda wedi ei golli ers i gorff gweinyddol Bangor Ogwen ddod i rym gan danseilio hunaniaeth a balchder dinesig y pentref a pheryglu Gymreictod cynhenid yr ardal er mwyn creu maesdref i ddinas Bangor.

## Galw am ddatgan diddordeb: Cadair Eisteddfod 2021

Gyda blwyddyn a hanner i fynd tan Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, mae rhoddwyr y Gadair yn chwilio am gynllunydd i greu un o brif wobrau'r Brifwyl.

Cyflwynir y Gadair er cof am Dafydd Orwig, un a fu mor amlwg ym mywyd cyhoeddus Gwynedd yn ystod ei oes. Yn 2021, bydd hi'n chwarter canrif ers ei farwolaeth, ac mae'r teulu'n awyddus i nodi hyn a dathlu'i fywyd a'i gyfraniad, drwy gomisiynu Cadair arbennig, a fydd yn adlewyrchu'i fywyd a'i greddoau.

Yn wreiddiol o Ddeiniolen, magwyd Dafydd Orwig (1928-1996) yn Carnew, Iwerddon tan ei fod yn 11 oed pan ddychwelodd y teulu i Ddeiniolen. Yn dilyn cyfnod fel athro daearyddiaeth ym Mlaenau Ffestiniog a Bethesda, bu'n ddarlithydd yn Y Coleg Normal ym Mangor, gan ddysgu cannoedd o fyfyrwyr. Yn addysgwr ac arloeswr, bu'n Gadeirydd Cyngor Sir Gwynedd ac yn Gadeirydd Cyngor Llyfrau Cymru, ynghyd â nifer o sefydliadau cenedlaethol a mudiadau eraill.

Gobaith y teulu yw bod y Gadair yn cael ei defnyddio fel rhan o ddodrefn arferol cartref yr enillydd, ond bod rhaid hefyd iddi edrych yn drawiadol ac urddasol ar lwyfan y Pafiliwn yn ystod wythnos yr Eisteddfod ym mis Awst 2021.

Bydd y cynllunydd llwyddiannus yn cael cynnig pren o un o goed derw gwreiddiol y Lôn Goed, a ddisgynnodd mewn storm tua phum mlynedd yn ôl. Mae'r coedyn yn 200 oed ac fe anfarwolwyd y Lôn Goed yng ngherdd eiconig R Williams Parry, Eifionydd.

Gellir lawr lwytho'r briff a'r manylion llawn ar gyfer creu'r Gadair drwy fynd i wefan yr Eisteddfod, [www.eisteddfod.cymru](http://www.eisteddfod.cymru). Y dyddiad cau i gyflwyno cais yw 1 Mehefin eleni, a bydd enw'r cynllunydd llwyddiannus yn cael ei ch/gyhoeddi maes o law.

Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd ym Moduan, ger Pwllheli o 31 Gorffennaf i 7 Awst 2021, gyda'r dalgylch yn ymestyn o Abergwynnegrain yn Aberdaron. Am ragor o wybodaeth ewch ar-lein.

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**,  
**Neville Hughes** 600853

## Bethesda

Mary Jones, maryeds@hotmail.co.uk

☎ 07443 047642

Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd  
Ffrydlas, Bethesda ☎ 601902

### Priodas Ddiemwnt

Llongyfarchiadau mawr i Mr. a Mrs. Gareth a Nancy Jones, Pant Glas, Bethesda, ar achlysur dathlu eu priodas ddiemwnt ar Chwefror 27. Priodwyd y cwpwl yn eglwys St Gwynant, Penmaenmawr yn 1960. Cariad mawr iddynt oddiwrth Carys a Bill, Helen a Paul, Gerallt a Bethan, â'u wŷyrion, Bethan, Cameron, Megan, Alice, Osian ac Anest, a hefyd eu gor-wŷyrion, Max, Myla, Jessie ac Ashley.

### Penblwydd Arbennig

Llongyfarchiadau hefyd i Karen Aston, Erw Las a ddathlodd benblwydd arbennig ym mis Chwefror. Rydym yn adnabod Karen yn dda drwy Gaffi Coed y Brenin wrth gwrs. Gobeithio iti fwynhau y dathlu Karen!

### Gair o ddiolch gan Karen Aston, Erw Las

Dymunaf ddiolch yn arbennig i Gerald, Cara, Mam a Beth, teulu a ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniais ar fy mhenblwydd yn mis Chwefror.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Lois a Mathew Nottingham, Erw Las ar enedigaeth merch fach, Ania Wyn ar Chwefror 16eg. Yr un yw'r dymuniad i deulu dros y ffordd sef nain a taid, Helen ac Arfon Evans.



### Penblwydd Arbennig

Penblwydd hapus i Phyllis Williams, Adwy'r Nant, yn 90 mlwydd oed ar Chwefror 13<sup>eg</sup>. Cafodd barti sypreis gyda'r teulu yn 'Tŷ Golchi' i ddathlu.

### Profedigaeth

Ar 11eg o Chwefror bu farw Margaret Wynne Hughes yn Nghartref Nyrsio Fairways Newydd, gynt o Ty Cerrig a 4 Ffrancon View, Coed y Parc. Mam annwyl i Kathryn, Valmai, Adrian a'i bartner Mandy a nain hoffus a ffeind i Morgan a Steffan.

Bu Margaret yn aelod ffyddlon o Eglwys St Anns a St Mair am flynyddoedd lawer hyd at ei gwaeledd. Cafwyd gwasanaeth angladd gyhoeddus yn yr eglwys honno ac fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent Pentir. Derbyniwyd rhoddion yn ddiolchgar tuag at Uned Iau, Ward 8, Ysbyty Plant Birmingham. Bydd colled enfawr ar ei hôl.

### Yr Eglwys Unedig

#### Tywydd Garw

Yn anffodus, bu'n rhaid i ni ddileu tair oedfa yn ystod y mis, oherwydd ein pryderon am iechyd a diogelwch pawb yn ystod y stormydd diweddar. Gobeithiwn yn fawr na ddigwydd hyn am amser maith eto.

#### Y Gymdeithas

Cawsom gyfarfod hynod o ddiddorol - ac addysgiadol - ym mis Chwefror, yng nghwmni Mr Thomas Hughes o 'Ymateb Cyntaf'. Derbyniwyd hyfforddiant gwerthfawr dros ben ganddo ar sut i ddefnyddio diffibriliwr, a chyflawni CPR. Diolch i Neville am wirfoddoli i fod yn 'glaf'! Ym mis Ebrill, disgwyliwn gael noson ddifyr arall yng nghwmni Mari Gwilym.

#### Colledion

Gyda gofid a thristwch mawr yr ydym unwaith eto yn gorfod cofnodi marwolaeth dwy o'n haelodau, sef Miss Alwen Eleri Hughes, a Mrs Mair Jones. Bu'r ddwy yn aelodau ffyddlon ac ymroddgar dros ben i'r capel am flynyddoedd lawer, hyd nes i afiechyd creulon eu rhwystro, a bydd bwlch mawr ar eu hôl. Dymunwn ddatgan ein cydymdeimlad cywiraf â'u teuluoedd, gan obeithio y derbyniant gysur o wybod gymaint oedd ein parch tuag atynt ill dwy.

Yn yr un modd, dymunwn hefyd anfon ein cofion at Mr Joe Hughes yn ei brofedigaeth lem o golli Eira. Er mai yng nghapel Carmel y mae Joe yn aelod, mae'n hynod o ffyddlon i'n hoedfaon boreol ni yma'n Jerusalem, ac yn barod iawn i gymryd rhan yn y gwasanaethau. Bendith arnoch fel teulu.

#### Mrs Glenys Wyn Lloyd Jones

Dyma ddedholiad o'r teyrngedau a roddwyd i Glenys yn ystod gwasanaeth ei hangladd:

#### Y Parchedig Cledwyn Williams (cefnder):

Addurnodd ei chapel â'i phresenoldeb - yn gyntaf yn Y Gerlan, ac yna Jerusalem, ar hyd ei hoes. Gwasanaethodd ynddynt fel un o'r swyddogion ers 1986, ac 'roedd ei pherthynas â'r capel yn un i'w efelychu. Credai Glenys:

"Mewn Beibl nad oes iddo glawr Mae'r Gair yn fyw ymhob gweithred fawr; Difater ydwyf am berlog borth - Fe gaf fy nefoedd wrth rannu'r dorth. Pan gaiff merch ei mesur, gofynnir gan Dduw Nid sut y gwnaeth farw, ond sut y gwnaeth fyw; Nid beth oedd ei chred, ond beth fyddai'n ei wneud, A faint oedd hi'n teimlo, nid faint allai ddweud; Nid faint oedd y deyrnged gan bawb i hen ffrind, Ond faint deimlodd golled ar ôl iddi fynd."

#### Mr Richard Lloyd Jones (cefnder):

Nid hawdd yw rhoi mewn brawddeg - yn gywrain

Am gariad gwraig landeg.  
I'ch Duw, rhowch ei hymdrech deg  
Yn eiriau ar ei charreg.

Y fam fu'n destun dameg - yn ei byw

Bu i bawb yn anrheg.

Cofio wnawn dawn trin yn deg,  
A'i haelioni'n delyneg.

#### Iwan - ar ran yr wŷyrion:

Yng nghanol ein hiraeth am Nain - a heb anghofio Taid, cysur mawr i'r tri ohonom, sef Aled, Daniel a minnau, yw cofio bod y ddau wedi cael mwynhau cwmni ei gilydd, ac wedi byw bywyd mor gymdeithasol. Byddwn ein tri'n fythol ddiolchgar am y cariad a ddangoswyd ganddynt tuag atom.

#### Euryl - ar ran y meibion:

Hogan o Gerlan oedd Mam, ac efallai'n bwysicach na hynny, hogan o'r Gwernydd. Nid oes amheuaeth bod y fagwriaeth gariadus a'r gymdogaeth gyfeillgar ac annwyl yn y Gwernydd yn rhan o'i gwneuthuriad hi a'i chyfoedion. 'Roedd ei chonsyrn, gofal am, a chariad at eraill yn wir yn esiampl i bawb. Dymuniad Gerwyn a minnau yw diolch am fywyd llawn mam, nain, chwaer, chwaer yng nghyfraith, modryb a ffrind. Diolch o waelod calon i'r rhai a fu'n driw i Mam drwy ei salwch, a diolch o galon hefyd am ofal staff Plas Ogwen a Bryn Seiont Newydd, Caernarfon.

#### Llenwi'r Cwpan

Mae drws agored yn y Festri fach bob bore Iau - dewch am baned, a chyfle i roi'r byd yn ei le!

#### Cyhoeddiadau'r Sul

Mawrth:

22: Mr Richard Morris Jones

29: Mr Aled Job (10)

Mr Dafydd Iwan (5)

Ebrill:

5: O dan ofal yr Ysgol Sul (10)

Trefniant Mewnol (5)

12: Cyfarfod Eglwysig (10)

Y Parchedig Iwan Ll. Jones

19: Y Parchedig Cledwyn Williams

26: Y Parchedig Nan Wyn Powell Davies

## Eglwys Crist, Glanogwen

### Gwasanaethau

Pob Bore Sul: Cymun Bendigaid Corawl am 11yb

Pob bore Mercher: Gwasanaeth Cymun byr am 10.30yb, ac i ddilyn, paned a sgwrs hwyliog. Croeso cynnes i bawb i'r holl wasanaethau.

### Tymor y Garawys

Cynhelir gwasanaeth byr bob nos Fawrth yn ystod y Garawys yn dilyn taith yr Iesu trwy Orsafoedd y Groes, ac yn rhoi sylw i wahanol gymeriadau oedd yn rhannu'r daith honno. Ymunwch â ni yn Eglwys Glanogwen bob nos Fawrth am 7 o'r gloch.

Anfonwn ein cofion cynnes at bawb sydd yn wael neu yn gaeth i'w cartrefi. Cofiwch gysylltu a Glenys Morgan (600371) neu Barbara Owen (600530) os am gael ymweliad neu Gymun yn y cartref.

### Mynwent Coetmor

Gyda tymor blodau Sul y Fam a'r Pasg yn nesau, atgoffir pawb yn garedig i roi unrhyw fagiâu plastig yn y bun gwyrdd (neu fynd a nhw adra), fel nad oes ond blodau a dail yn y bun brown. Diolch yn fawr i'r rhai sydd yn tacluso o gwmpas y biniau - gwerthfawrogir yn fawr unrhyw help.

Ac os oes gennych amser ac awydd i ddod i helpu dacluso'r drain a'r mieri o amgylch y fynwent, cysylltwch a'r rhifau uchod i drefnu dod ynghyd. Diolch.

[www.llaisogwan.com](http://www.llaisogwan.com)  
@Llais\_Ogwan

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**,  
**Neville Hughes 600853**

## Glasingfryn a Chaerhun

### Cylch Glasingfryn

Cychwyn trist a gawsom i'n Cyfarfod Blynyddol o'r Cylch bawn lau 13 Chwefror. Clywsom am farwolaeth Margaret Griffith, un o'n aelodau ffyddlon. Talwyd teyrnged syml o'i bywyd diddorol gan Mair Griffiths a chawsom funud o dawelwch i gofio amdani.

Braf oedd gweld cynifer wedi dwad i drafod ein gweithgareddau am y flwyddyn bresennol a chawsom bawn difyr yn cymdeithasu a chael paned a chrempog. Diolch i Mair am blatiad o grempogau blasus!

Cawl a Chân fydd ar yr agenda mis nesaf, 13 Mawrth, yn y Ganolfan am 6.30yh. Croeso i aelodau newydd ddod i fwynhau swper a dathlu Gwyl Ddewi gydag adloniant wedi ei drefnu gan Marian Bryfdir. Ar 8 Ebrill am 7yh mae Carol Williams (Rhaglenni garddio S4C a Moelyci) yn dod atom i arddangos a sgwrsio am Arddio'r Gwanwyn. Dowch atom - cewch groeso cynnes!

### Margaret Griffith

Yn dawel yn Ysbyty Eryri ar 1 Chwefror, bu farw Margaret Griffith, gynt o 21 Caerhun, yn 76 oed. Ganwyd a magwyd Margaret yng Nglasingfryn, gan fynychu yr ysgol leol a chapel Bethmaaca. Wedi hyfforddi yn y diwydiant Gwestai a Rheolaeth bu'n gweithio mewn sawl rhan o'r wlad cyn dod adref i weithio yn Morris & Jones, Caernarfon ac yna cyn ei hymddeoliad yn yr Adran Pelydr X yn Ysbyty Gwynedd. Bu yn weithgar iawn yn ei bro a'i hardal, yn gadeirydd Sefydliad y Merched, Sioe Glasingfryn a'r Ganolfan. Yn ogystal bu'n Gyngorydd bro ar Gyngor Cymuned Pentir am nifer o flynyddoedd. 'Roedd wrth ei bodd yn garddio, gwnio a gwyllo adar, yn aelod brwd o Urdd y Brodweithwyr a'r RSPB.

Bu'r cynhebrwng ar 14 Chwefror yn eglwys Sant Cedol, lle bu'n aelod selog. Bydd ei cholled yn fawr ymysg ei ffrindiau.

### Elwyn Oswald Jones

Ar 28 Ionawr, yn dawel yn ei gartref, Ty'n Pwll, Caerhun yn 86 oed, bu farw Elwyn Oswald Jones. Yr oedd Elwyn wedi bod yn ddall ers nifer o flynyddoedd, ond serch hynny 'roedd yn mwynhau bywyd yn llawn. Hyd at ychydig o flynyddoedd yn ôl fe welwyd ef yn ddyddiol yn cerdded gyda'i gi tywys o amgylch yr ardal a thu hwnt, fel Porthaethwy yn wythnosol! Cydymdeimlwn ag Andy, ei fab ac Alison, ei ferch a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mrs Elizabeth Evans, Fferm Penhower Uchaf ar golli ei brawd Gwynfor Prytherch o Borthmadog yn ddiweddar. Yr oedd hefyd yn frawd yng nghyfraith i Mrs Elsi Prytherch, Erwau'r Gwynt, Waen Wen.

### Dymuniadau Gorau

Gyda phob dymuniad da am adferiad buan i Carol Jones, Pentref Glasingfryn sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar

### Bingo

Wedi gorfod gohirio Bingo cyntaf y flwyddyn newydd oherwydd y tywydd garw llwyddwyd i gael noson hwyliog ar 28 Chwefror, gyda'r elw o £117 yn mynd at y Ganolfan. Diolch o galon i bawb am eich rhoddion tuag at y noson. Cynhelir y Bingo nesaf ar 27 Mawrth gyda'r elw yn mynd at "Gafael Llaw", elusen sydd yn codi arian i gefnogi plant efo cancr yn yr ardal a rhoi cymorth i Ward Dewi yn Ysbyty Gwynedd. Unwaith eto cofiwch amdanom os ydych efo "presanta" yn y tŷ heb eu defnyddio! Blwyddyn diwethaf, 2019, codwyd £1,442 tuag at achosion da lleol, llawer o ddiolch i bawb am bob cefnogaeth a chyfraniadau i'r nosweithiau hyn drwy y llynedd, hefyd yn arbennig i'r trefnwyr!



# C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045  
Caernarfon 01286 676070  
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol  
Stoc helaeth ac amrywiol  
Staff cyfeillgar a phroffesiynol  
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768  
Llanrwst 01492 640794

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

**CAFFI COED Y BRENIN**

1 Rhes Buddug, Bethesda

**Ffôn: 01248 602550**[karena@agoriad.org.uk](mailto:karena@agoriad.org.uk)**Bwyd cartref blasus  
(mewn awyrgylch cyfeillgar)****Cinio arbennig bob dydd Iau****Bwyd i'w gario allan****Gwasanaeth arlwyo ar gyfer  
partïon o bob math -  
plant, pen-blwydd ac ati  
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)****Cacennau ar gyfer pob achlysur  
e.e. priodas neu ben-blwydd****Prisiau rhesymol****BISTRO'R BRENIN  
(Bwyty Trwyddedig)****Rydym yn croesawu partïon  
o bob math – dathlu pen-blwydd  
ac achlysuron arbennig eraill.  
Beth am eich Parti Nadolig?****Gadewch i****Londri Coed y Brenin  
wneud eich golchi****Elwyn Jones & Co****hefyd yn masnachu fel****Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP****- Cyfreithwyr -****123 Stryd Fawr  
Bangor  
Gwynedd  
(01248) 370224****Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol  
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar****Swyddfeydd eraill:****Llangefni (01248) 723106** **Porthaethwy (01248) 719517** **Benllech (01248) 852782****Caernarfon  
(01248) 673616****Pwllheli  
(01758) 703000****Arbenigwr mewn lloriau coed caled****A.G.L.  
Lloriau****Arbenigwr mewn gosod a  
selio lloriau coed caled,  
adnewyddu lloriau  
gwreiddiol a chyweirio  
lloriau sydd wedi eu  
difrodi.****Andrew G. Lomozik B.A.****Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909****Tregarth****Olwen Hills (Anti Olwen),  
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192  
Angharad Williams,  
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544****Gwobr arbennig**

Llongyfarchiadau enfawr i Tomos Morris Jones, mab Christine ac Emyr Morris Jones, 28 Tal y Cae, Tregarth. Daeth Tomos yn fuddugol am y ffilm a wnaeth fel rhan o'i gwrs gradd mewn Newyddiaduraeth a Ffilm ym Mhrifysgol Bangor. Ffilm am ei ffrind Elis Derby o'r Felinheli yw testun y gwaith. Enillodd Tomos wobwr RTS Israddedig Myfyrwyr am ei ffilm fer 'Elis Derby; Fi ac OCD.' Erbyn hyn mae Tomos yn Olygydd Teledu dan hyfforddiant gyda Cwmni Da yng Nghaernarfon. Ardderchog Tomos ac edrychwn ymlaen i ddilyn dy yrfa ym myd y ffilmiau.

**Capel Shiloh**

Gwasanaethau (am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol)

Mawrth 15: Philip Barnett, Swydd Efrog

Mawrth 22: Glyn Owen, Llanwnda

Mawrth 29: Richard Gillion

Ebrill 5: Oedfa Deulu Sul y Blodau,

Richard Gillion

Ebrill 12: Sul y Pasg, Ffon Rowlinson

Ebrill 19: Gwynfor Williams, Caernarfon

Ebrill 26: Rhian Evans-Hill, Rhiwlas

**Cydymdeimlo**

Bu farw John Huw Evans, Rhiwlas, sef tad Rhian Evans-Hill, a chydymdeimlwn gyda hi a'r teulu yn eu hiraeth.

**DAFYDD CADWALADR****Cynhyrchion Coedlannol****Coed Tân - Llwythi bach a mawr  
Ysglodion pren i'r ardd  
Ffensio a thorri coed  
Asiant system gwresogi trwy  
logsi coed****01248 605207****Ymgymmerwr adeiladu a  
gwaith saer****Ronald Jones****Bron Arfon, Llanllechid  
Bethesda****☎ 01248 298763****Gwaeledd**

Anfonwn ein cofion at y Parchedig Gwynfor Williams, Caernarfon, sydd wedi bod yn bur wael yn ddiweddar ac sydd yn glaf yn Ysbyty Gwynedd, Bangor. Brysiwch wella Gwynfor. Mae'n braf iawn gweld bod un o ffyddloniaid Shiloh wedi gwella ac yn ddigon da i ddychwelyd i'w sedd sef Wynne Roberts, Bryn Difyr, Tregarth. Da eich gweld yn ôl Wynne wedi cyfnod o waeledd.

**Drws Agored**

Mae'n braf iawn cael croesawu cymaint i mewn drwy ddrws Shiloh ar fore Gwener, rhwng 10 o'r gloch a 12 o'r gloch. Cyfle am sgwrs, paned a chwmmi. Beth well ar fore Gwener oer a gwlyb na chwmmi ffrindiau!

**Eglwys y Santes Fair****Gwasanaethau (am 9.30yb)**

Mawrth 22: Cymun Bendigaid – Sul y Fam

Mawrth 29: Cymun Bendigaid.

Ebrill 5: Boreol Weddi – Sul y Blodau

Ebrill 12: Cymun Pasg.

**Te Crempog**

Diolch i bawb wnaeth gefnogi'r Te Crempog.

Braf gweld cymaint wedi dod ac yn mwynhau!

**Festri Pasg**

Ar ôl y gwasanaeth dydd Sul, Ebrill 5ed, byddwn yn cynnal y Festri Pasg – Cyfarfod Blynyddol yr eglwys. Croeso i bawb ymuno.

**Cangen Tregarth o Ferched y Wawr**

Yng nghyfarfod cyntaf 2020 braf iawn oedd cael croesawu Paula Roberts o Lanberis i'r gangen. Darlithydd ym Mhrifysgol Bangor ydi Paula ac mae'n wyddonydd wrth ei gwaith. Bu'n crwydro rhannau pell o'r byd yn astudio daeareg a phlanhigion sy'n ffynnu mewn hinsawdd o bob math. Yn ei chwmmi cawsom wybod, a gweld drwy luniau ar y sgrin, gynefinoedd yn yr Artig ac yn Antartiga. Yn ogystal a phlanhigion sydd yn tyfu yn y gwledydd hynny cawsom gip ar yr anifeiliaid a'r pysgod sydd yn byw mewn amgylchedd o'r fath.

Yn ogystal a bod yn ddaearegydd mae Paula hefyd yn feiciwr o fri ac mae ei gŵr a hithau yn beicio tandem ar draws y wlad. Diolchwyd i Paula am noson ddifyr ac addysgol gan Iona Rhys a'r llywydd, sef Myfanwy Harper.

Cyfeiriodd Myfanwy at farwolaeth un o'n haelodau ffyddlonaf fu farw yn ddiweddar sef Dilys Parry Williams. Cydymdeimlodd gyda Rhian Evans-Hill yn ei phrofedigaeth o golli ei thad, sef John Huw Evans, Rhiwlas. Llongyfarchodd un o'r aelodau Myfanwy, ein llywydd, am ddod yn nain am y tro cynta i Eric Idwal.

Bydd y gangen yn dathlu Gŵyl Ddewi, Nos Lun, Mawrth 2 yng Nghlwb Rygbi, Bethesda.

Ar Ebrill 6 cawn gwmmi Wil Aaron, y cyfarwyddwr ffilm, a'i destun fydd Martha Hughes Cannon, a hynny yn Festri Capel Shiloh am 7'30 o'r gloch.

# Llythyrau

Annwyl Olygydd,  
Mae plant yn dychwelyd i'w dosbarthiadau ar ôl gwyliau hanner tymor, ac felly hefyd ein tîm pwrpasol o wirfoddolwyr hyfforddedig sy'n rhoi eu hamser i helpu i gadw plant yn ddiogel ar draws Gwynedd.

Mae pob ysgol gynradd yn gymwys ar gyfer rhaglen ddiogelu rad ac am ddim o'r enw 'Cofia ddweud, Cadwa'n ddiogel', sy'n cael ei chyflwyno gan NSPCC Cymru.

Mae'r sesiynau'n cael eu cyflwyno gan dîm ymroddedig o wirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser i helpu eraill. Fodd bynnag, mae angen mwy o wirfoddolwyr arnom er mwyn i ni allu cyrraedd cynifer â phosib o blant gyda'r negeseuon pwysig hyn.

Rydyn ni'n ymweld ag

ysgolion Cymraeg a Saesneg eu hiaith gyda'r rhaglen, sy'n helpu plant i ddysgu mewn ffordd briodol i'w hoedran am y gwahanol fathau o gam-drin, oedolion y gellir ymddiried ynddyn nhw, a Childline.

Yn anffodus, ni fydd llawer o blant yn gwybod bod yr hyn sy'n digwydd iddyn nhw yn gam-drin, a gyda dau blentyn mewn dosbarth ar gyfartaledd yn profi rhyw fath o gam-drin, mae'n hanfodol ein bod yn grymuso'r genhedlaeth nesaf ac yn sicrhau ein bod yn eu hamddiffyn.

Rydyn ni'n cynnig ein gwasanaethau boreol a'n gweithdai yn ddwyieithog, er mwyn i ni allu cyflwyno'r rhaglen i blant yn yr iaith maen nhw'n fwyaf cyfforddus â hi, ac ar hyn o bryd mae angen mwy o wirfoddolwyr

sy'n siarad Cymraeg arnom.

Mae ein gwirfoddolwyr hyfforddedig yn ymrwmo i gyflwyno o leiaf ddwy sesiwn y mis a helpu i gychwyn sgysiau am gam-drin mewn ffordd ryngweithiol, gan alluogi athrawon i barhau â'r trafodaethau gyda'u myfyrwyr yn yr ystafell

Mae ein gwirfoddolwyr i gyd yn teimlo'n gryf ynglŷn ag amddiffyn plant rhag niwed, ac maen nhw'n cael yr hyfforddiant a'r cymorth sydd eu hangen arnyn nhw er mwyn iddynt deimlo'n hyderus yn eu rôl.

Gall unrhyw un a hoffai wybod mwy am wirfoddoli gyda ni gysylltu â fi ar 07980 005 964 neu anfon e-bost at Rhian.Jones@nspcc.org.uk.

**Rhian Jones**  
**NSPCC Cymru/Wales**

## Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Chwefror, cynhaliwyd cyfarfod pob aelod etholaeth Arfon ym Mhlas Menai, yn bennaf i enwebu arweinydd ac is-arweinydd Plaid Lafur Prydain.

Yna, ar ddiwedd y mis, cynhaliwyd cyfarfod pob aelod arall o Plaid Lafur Arfon, yn bennaf i ddewis anfonogion a chynigion ar gyfer Cynhadledd Cymru a fydd yn cael ei chynnal yn Llandudno.

Aeth cynrychiolaeth o'r gangen i'r ddau gyfarfod uchod ac yn y dyfodol bydd cyfarfodydd pob aelod Arfon yn cael eu cynnal ar yr ail Nos Fercher o'r mis (ac eithrio Awst a Rhagfyr) yn Institiwt Caernarfon neu Clwb Hiracl Bangor.

Cynhelir y cyfarfod cangen deufisol nesaf yng Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda ar Fawrth y 24<sup>ain</sup> am 7:30 y.h. a Gwladoli (Nationalisation) fydd y pwnc trafod yn yr ail hanner.

# Gof o Fethesda a fu yn Y Rhyfel Byd Cyntaf

gan Andre Lomozik

Wrth ymchwilio i hanes y milwyr o Fethesda a fu'n ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf, deuthum ar draws y tudalennau yma yn ymwneud â bachgen o'r enw Richard Roberts. 'Roedd yn byw yn rhif 5 Coetmor Terrace, Bethesda, yn y flwyddyn 1914, ond yn 18 Mill Street ar gyfrifiad 1911.

Anfoneb busnes yw'r dudalen gyntaf, gyda'r cyfeiriad Douglas Smithy, Bethesda a'r enw H. Williams, General Blacksmith and Shoeing Smith. 'Roedd Hugh Williams a'i wraig Ellen yn byw yn rhif 4 Douglas Terrace, (Douglas Smithy), ac mae'r cyfrifiad yn nodi mai uniaith Gymraeg oedd Hugh ag Ellen. Mae un o'r ddwy dudalen arall wedi'i hysgrifennu a'i llofnodi gan R. ? Jones ar ran H. Williams, ac yn tystio fod Richard Roberts wedi bod yn gweithio yn yr efail, a'i fod yn aelod o eglwys ac yn ddyd dibynadwy. 'Roedd R Jones yn siŵr y byddai Richard yn cyflawni pa bynnag ddyletswyddau a roddid iddo yn y fyddin. Mae'r ail ddarn o

bapur yn dweud bod angen i'r swyddog â gofal yn y fyddin fodloni ei hun fod Richard yn gallu gwneud gwaith gof yn foddhaol cyn ei gymeradwyo, (ac mae'n rhaid cofio bod tua miliwn o geffylau wedi'u defnyddio yn ystod y rhyfel, felly roedd gwaith gof yn un hanfodol). 'Roedd Richard yn 30ml. a 3 mis oed pan ymunodd â'r Royal Engineers fel Rhif 58182 ar y 30/11/1914, ac 'roedd yn 5 troedfedd a 5 modfedd o daldra.

Mae llyfr Llenyddiaeth ac Enwogion Llanllechid a Llandegai, William Parry (Llechidon) a Robert Parry (Trebor Llechid) yn nodi mai aelod o eglwys Glanogwen oedd Richard, a'i fod o a George Maiden, ei frawd yng nghyfraith, ill dau wedi bod yn ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf, a rhoddwyd cyfeiriad 5 Coetmor Yard iddynt.

Bachgen o Ddolgellau oedd Richard yn wreiddiol, ac 'roedd wedi priodi merch o Fethesda o'r enw Margaret Ellen (Maiden) ar y 23<sup>ain</sup> o Ragfyr 1908. Ganwyd merch fach o'r enw Margaret May i'r pâr ar y 4ydd o Fai 1910. 'Roedd yr enw Maiden yn

swnio yn ddiarth i mi, ac wrth edrych ar "Ancestry.Com" gwelais mae un o Ddyfnaint oedd ei thad. Dyma'r teulu fel y maent yn ymddangos ar gyfrifiad 1891: George Maiden, 48 oed, wedi'i eni yn Nyfnaint, ac yn gweithio fel labrwr yn chwarel y Penrhyn; Margaret ei wraig yn 44 oed ac wedi'i geni yng Nghaernarfon; Catherine Ann, wedi'i geni yng Nghaernarfon, yn 15 oed, ac yn cael ei disgrifio fel morwyn; Emily, yn 14 oed, ac wedi'i geni ym Methesda, fel gweddill y teulu; Margaret Ellen, 12 oed, (gwraig Richard Roberts yn ddiweddarach); Ellen Jane 8 oed; George 3 oed; a Bessie yn 1 oed. 'Roedd y teulu yn byw yn Mill St. Bethesda ar y pryd.

Dioddefodd Richard o'r malaria yn ystod y rhyfel a chafodd ei wobrwyo gyda phensiwn o 3/- yr wythnos o'r 3ydd o Fedi 1919, i'w adolygu ymhen 64 wythnos o'r dyddiad hwnnw. 'Roedd Richard a'i frawd yng nghyfraith, George yn rhai o'r bechgyn lwcus a ddaeth adref yn ôl i'w cynefin ar ôl blynyddoedd arswydus y Rhyfel.

## Ysgol Dyffryn Ogwen



### Cogurdd

Da iawn i bawb a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth coginio yr Urdd ble roedd yn ofynnol iddynt goginio dau bryd tapas. Bendigedig gweld disgyblion yn trio rhywbeth newydd, a phob lwc i Siwan White a Mia Williams yn y rownd rhanbarthol.

### Ymweliad Dr Dafydd Roberts

Diolch o galon unwaith eto eleni i Dr Dafydd Roberts am ei arweiniad i'r criw sy'n astudio'r Gymraeg ym mlwyddyn 13. Bu Dr Roberts yn trafod Bethesda yn ystod cyfnod y nofel Un Nos Ola Leuad. Bydd y sgwrs yn werthfawr iawn i'r myfyrwyr pan fyddant yn sefyll yr arholiad ddiwedd y mis hwn. Diolch unwaith eto.

### Eisteddfod yr Urdd

Bu'n noson lwyddiannus iawn i ddisgyblion yr ysgol yn yr Eisteddfod Cylch eleni. Cynhaliwyd yr eisteddfod yn ysgol Tryfan a llwyddodd nifer fawr o unigolion o ysgol Dyffryn Ogwen i ennill eu lle yn yr Eisteddfod Sir. Llongyfarchion fil i'r Parti Merched a

gipiodd y wobr gyntaf ac i'r ddwy ymgom o'r ysgol, y naill o flwyddyn 9 a'r llall o flwyddyn 7 a gipiodd y wobr gyntaf a'r ail wobr mewn cystadleuaeth gref iawn. Pob hwyl i chi gyd yn yr Eisteddfod Sir. Cewch fwy o'r hanes yn y rhifyn nesaf.

### Adran Gerdd

Diolch i Lapsen Trust am roi £500 i'r adran Gerdd i brynu gitâr newydd.

### Sioe Deithiol Addysg Uwch

Cafwyd ymweliad hynod ddiddorol gan y Sioe Deithiol Addysg Uwch (Prifysgolion Caerdydd a Met Caerdydd) pan ddaethant i gyflwyno i flynyddoedd 8 a 9 yr wythnos hon. 'Codi Dyheadau' oedd y nod i flwyddyn 8, ac yn sicr mae llawer mwy o'n disgyblion yn ystyried bywyd Prifysgol fel opsiwn ôl-ysgol yn dilyn y wybodaeth gafwyd. 'Paratoi ar gyfer TGAU' oedd y thema i flwyddyn 9, a hwythau ar hyn o bryd yn ceisio dewis pynciau ar gyfer y ddwy flynedd nesaf yn eu gyrfa ysgol. Y sialens iddynt rŵan fydd gweithredu ar y cyngor gawsant a gwneud penderfyniadau doeth ar gyfer eu dyfodol.

### Athletau

Mae Ela Oliver wedi llwyddo i ennill medal arian yn y 200m a'r 60m ym mhencampwriaeth atletau Cymru. Llwyddodd i redeg mewn 'PB' o 26.26 eiliad yn y 200m.

### Athletau dan do

Bu i nifer o ddisgyblion berfformio'n arbennig o dda yng nghystadleuaeth ysgolion Gwynedd. Llongyfarchiadau mawr i Mared

Morris o flwyddyn 10 wnaeth orffen fel Athletwraig dan 15 y diwrnod, Osian Davies wnaeth orffen yn 2ail fel Athletwr y diwrnod ac i Cai Davies am orffen yn 3ydd.

### Traws gwlad

Fe aeth Boe Celyn Jones, Madeleine Sinfield, Erin Basinger ac Emily Jones draw i Ddolgellau i gynrychioli ysgolion Arfon ym mhencampwriaeth traws gwlad Eryri ar y 5ed o Chwefror. Llwyddodd Boe i orffen yn 2ail yn ei ras hi, Madeleine yn 6ed ac Erin yn 8fed felly maen nhw yn mynd ymlaen i gynrychioli ysgolion Eryri ym mhencampwriaeth Cymru nesaf. Llongyfarchiadau i'r pedair ohonynt am wneud mor dda i gychwyn ac i'r dair am fynd trwodd.

### Rygbi

Llongyfarchiadau mawr i sawl disgybl sydd wedi cynrychioli timau rygbi RGC yn ddiweddar. Mae Elis Evans, Huw Davies, Tomos Hughes a Leon Wild wedi bod yn aelodau cyson o dîm dan 16 ac yn berfformwyr cryf iawn. Yn yr un modd mae Jac Wyn Roberts, Cai Davies ac Osian Davies wedi chwarae sawl gwaith dros dîm Gorllewin RGC dan 15 ac wedi gwneud argraff dda iawn ar yr hyfforddwyr.

### Pêl rwyd

Mae timau pêl rwyd dan 14 a dan 16 wedi gwneud cynnydd mawr dros yr wythnosau diwethaf, ac wedi ennill eu gemau diweddar yn erbyn Ysgol St Gerrard. Llongyfarchiadau i bawb am gymryd rhan, yn enwedig i Beca Jones, Elin Owen ac Ela Jones am fod yn sêr y gêm.



Tîm pêl rwyd dan 14



Tîm pêl rwyd dan 16



# Marchnad Ogwen

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Farchnad yn ystod mis Chwefror. Brafiawn oedd gallu llawenhau fod y Farchnad ar seiliau cadarn ac wedi datblygu i fod yn un hapus a llwyddiannus. Diolch i'n cwsmeriaid ffyddlon ac i waith y Pwyllgor.

Llongyfarchiadau mawr i Lois a'i gŵr Mathew ar enedigaeth Ania fach. Mae Lois yn berchen stonidin 'Cypcêcs Lois' ac yn gwneud cacennau blasus tu hwnt. Rhaid i ni beidio anghofio llongyfarch Taid a Nain hefyd - sef Helen ac Arfon Evans, Erw Las. Mae Helen yn helpu Lois ar y stonidin.

## Stondinau Newydd Hwre!

Mae Mug Run wedi cychwyn gyda ni ym Marchnad Chwefror. Croeso cynnes i Tim Parry o'r Rhyl sy'n rhostio coffi yn ffres. Cewch brynu ffa cyfan neu rhai wedi malu'n fân "gyda llwyaid o gariad Cymreig" meddai Tim.

Brafiawn yw croesawu Elin Pritchard o Rachub atom ym Marchnad Mawrth. A beth sydd gan Elin meddwch chi - wel ydi 'Popty Pritch' yn swnio'n addawol? Ia, cacennau sydd gan Elin yn ei phopty. Mae hi yn tynnu dŵr o'n dannedd yn crasu cacennau cri yn y fan a'r lle! Mae rhai cacennau eraill ar werth hefyd. Croeso mawr Elin.

Newyddion da arall yw bod Cig Eryri

o ardal Trawsfynydd yn gwerthu cig yn y Farchnad. Croeso arbennig i Tesni a'i - chig Cymreig lleol - yn enwedig wedi i siop cigydd y pentref gau. Felly, cyfle i stocio eich rhewgell am y mis ym mhob Marchnad. Croeso mawr Tesni.

Mae Stondin Elusen mis Ebrill yng ngofal 'Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned' Mae'r bobl arbennig yma ar alwad mewn argyfwng meddygol yn ein cymuned. Maent yn gwirfoddoli i wneud gwaith arbennig o bwysig yn yr ardal. Yr hyn sy'n sobor yw bod yn rhaid iddynt gasglu arian eu hunain i brynu'r pecyn offer i ymateb galw. Felly pleser yw gallu cefnogi'r criw lleol ym Marchnad Ogwen.

Y mis nesaf sy'n rhydd i'r Stondin Elusen yw Awst.

Bydd y Farchnad nesaf ar Sadwrn y Pasg, sef Ebrill 11eg. Croeso cynnes wrth gwrs. Mae gwybodaeth am y Farchnad ar ein gwefan [www.marchnadogwen.co.uk](http://www.marchnadogwen.co.uk) ac ar **facebook** y Farchnad.

## Stonidin y mis

### Cardiau Maes Melyn.

Dyma fi yn gorfod ysgrifennu am fy stonidin fy hun! Jan Jones ydw i sef ysgrifennydd Marchnad Ogwen.

Mi ddechreuais trwy wneud cardiau pwyth croes i benblwyddi teulu ag ati, ond yna daeth yr awydd i drio gwneud cardiau 'go iawn' a



chreu Cardiau Maes Melyn. Mae gen i ddau fab, Rhys a'i deulu yn byw ym **Maes** Meddyg, Caernarfon, a Siôn a'i deulu yn byw ym **Mraichmelyn**. Dyna sut y daeth yr enw i fodoli. I dorri stori hir yn fyr, dwi bellach yn creu cardiau Cymraeg at bob achlysur (bron iawn!) ac yn cael pleser garw.

Mae holl elw'r cardiau yn mynd i'r Uned Ymchwil Cancr sydd ar Ffordd Deiniol, Bangor (dros y ffordd i archfarchnad Asda). Hefyd, i elusennau sy'n agos at fy nghalon megis Cyfeillion Ysbyty Gwynedd, yr NSPCC ac yn y blaen.

Gaf i fanteisio ar y cyfle i ddiolch yn fawr iawn i fy nghwsmeriaid ffyddlon ym Marchnad Ogwen - rydach chi yn gwybod pwy ydach chi! Llawer o ddiolch.

## Ysgol Penybryn

### Disgo Santes Dwynwen

Cafwyd disgo Santes Dwynwen llwyddiannus iawn a oedd wedi'i drefnu gan y cyfeillion. Daeth llawer o blant yr ysgol i'r disgo ac roedd dawnsio brwdfrydig iawn i'w weld. Diolch yn fawr i'r rhai a drefnodd y noson am eu gwaith caled a'u cefnogaeth.

### Ffilmio "Ein Bro"

Yn sgil dyfodiad y Cwricwlwm newydd yng Nghymru, roedd blwyddyn chwech, Ysgol Penybryn yn awyddus iawn i ddysgu am eu hardal leol mewn ffordd gyfoes, hwyliog, ymarferol a gwahanol i'r arfer. Felly, yn dilyn pleidlais drosbarth, penderfynwyd ar y

cyfrwng ffilm; roedd hyn yn plesio PAWB.

I fod yn gwbl onest, doeddem ddim yn sylweddoli mawredd y gwaith oedd o'n blaenau, o'r sgrriptio, i'r ffilmio, y cyfarwyddo, cynhyrchu, a'r golygu. Ond, aethom ati fel lladd nadroedd i gasglu arian, cwblhau ffurflenni grantiau, a mynd ar ofyn trigolion hael Bethesda a oedd yn barod iawn i rannu eu harbenigeddau, am ddim cofiwch !!

Does dim dwywaith amdani fod y plant wedi cael profiadau amhrisiadwy, bythgofiadwy. Ynhw sydd wedi bod wrth y llyw ers y cychwyn cyntaf, llais y plentyn sydd wedi ein harwain ni i greu'r cyfanwaith. Bu'r plant wrthi'n sgrriptio golygfeydd, yn cyfansoddi cân ar gyfer diwedd

y ffilm, cael eu hyfforddi gan arbenigwyr camera a sain, ynhw oedd yn gyfrifol am y gwisgoedd, y cyfarwyddo a llawer mwy. Dysgodd y plant am eu hetifeddiaeth, a'u cymdeidiau ac am gymuned glos y gorffennol, yn ogystal a dysgu am fro eu mebyd heddiw, a'i phobl unigryw. Yn fy nhyb i, profiadau fel hyn fydd yn aros ar gôf a chadw yn fwy na dim o'u hamser ym Mhenybryn.

Felly yn Neuadd Ogwen ar Fawrth 31 2020, byddwn yn rhoi ein dehongliad ni o "Ein Bro"! Cysylltydd am fwy o wybodaeth Llinos Morgan Jones - athrawes Blwyddyn 6, Ysgol Penybryn, Bethesda, Bangor, Gwynedd. Rhif ffon yr Ysgol: 01248 600375

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

## Dyddiadur Boreau Coffi



### 2020

#### Mawrth

- 21 Cefnfaes - Eglwys Crist Glanogwen.
- 28 Cefnfaes - Eglwys St. Cedol, Pentir.

#### Ebrill

- 04 Cefnfaes - Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
- 18 Cefnfaes - Cymdeithas Jerusalem.
- 25 Cefnfaes - Plaid Lafur.

#### Mai

- 02 Cefnfaes - NSPCC
- 16 Cefnfaes - Cymorth Cristnogol.
- 30 Cefnfaes - Eglwys Sant Tegai

#### Mehefin

- 06 Cefnfaes - Eglwys Crist Glanogwen.
- 20 Cefnfaes - Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
- 27 Cefnfaes - Eglwys St. Cedol, Pentir.

#### Gorffennaf

- 04 Cefnfaes - Cronfa Goffa Tracey Smith.

#### Medi

- 12 Cefnfaes - NSPCC.
- 19 Cefnfaes - Eglwys Crist Glanogwen.
- 26 Cefnfaes - Plaid Cymru.

#### Hydref

- 03 Cefnfaes - Cyfeillion Ysbyty Gwynedd.
- 10 Cefnfaes - Eglwys Sant Tegai.
- 17 Cefnfaes - Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
- 24 Cefnfaes - Eglwys St. Cedol, Pentir.

#### Tachwedd

- 07 Cefnfaes - Gorffwysfan.
- 14 Cefnfaes - Clwb Camera Dyffryn Ogwen.
- 21 Cefnfaes - Cronfa Goffa Tracey Smith.

#### Pwysig

Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag.

Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon.

Bydd yn cael ei diweddarau ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

### CANOLFAN CEFNFAES

#### GYRFA CHWIST

MAWRTH 24 a 31  
EBRILL 14 a 28  
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

### CANOLFAN CEFNFAES

#### BORE COFFI EGLWYS CRIST GLANOGWEN

SADWRN, 21 MAWRTH  
10.00 - 12.00

### CANOLFAN CEFNFAES

#### BORE COFFI Eglwys St. Cedol Pentir

SADWRN, 28 MAWRTH  
10.00 - 12.00

Ysgoldy Carmel,

Llanllechid

#### TE BACH

Pnawn Llun,

23 Mawrth

2.30 - 4.00

Croeso i bawb



#### Neuadd Bentref Rhiwlas

Cyfres Darlithoedd Hanes

14eg Ebrill

am 7.00 o'r gloch

Cynrig Hughes


#### 'Bara Brith ar y Paith'

(Hanes teulu ymfudodd i  
Batagonia o Rhiwlas)

Pris mynediad £3.00  
hefyd

Yr uchod drwy gyfrwng Saesneg  
28ain Ebrill am 7.00 o'r gloch

#### Grŵp Canu Ogwen (Sgwrs a Chân)



Pob bythefnos o'r  
10 Ionawr ymlaen  
1.30 - 2.30yp

(Panad a Sgwrs am 1.15)  
yn Ystafell Gymunedol  
Canolfan Feddygol Bethesda

Croesewir aelodau newydd sydd  
dros 50 oed, yn enwedig dynion

### CANOLFAN CEFNFAES

#### BORE COFFI Eisteddfod Dyffryn Ogwen

SADWRN, 4 EBRILL  
10.00 - 12.00

### CANOLFAN CEFNFAES

#### BORE COFFI Cymdeithas Jerusalem

SADWRN, 18 EBRILL  
10.00 - 12.00

#### Cymdeithas Jerusalem

yn Ffestri Jerusalem  
Nos Iau, 9 Ebrill  
am 7 o'r gloch  
gyda

Noson yng nghwmni  
MARI GWILYM

#### FFAIR BASG

Eglwys St' Ann a St. Mair

Sadwrn, 4ydd Ebrill  
11 - 2 p.m.

yn y NEUADD GOFFA,  
Mynydd Llandygai

Bydd lluniaeth ysgafn ar gael  
dros yr awr ginio ynghyd  
ag amrywiaeth o stondinau.  
Croeso cynnes i bawb.

# Coffáu 70 mlynedd ers Trychineb Awyren Fomio Bethesda

Apêl Leol  
Eisteddfod Genedlaethol  
Llŷn ac Eifionydd 2021

## CYFARFOD AGORED

Yn Llyfrgell Gymunedol  
Bethesda  
Nos Iau, 2 Ebrill  
am 7 o'r gloch

Balchder Bro  
Dyffryn Ogwen

## CYFARFOD BLYNYDDOL

yng  
Nghanolfan Cefnfaes  
Nos Fercher,  
25 Mawrth am 7.00  
Croeso i bawb.

### GORFFWYSFAN

## Stryd Fawr, Bethesda

Mae Gorffwysfan  
ar agor bob dydd  
Dydd Llun i Ddydd Gwener  
rhwng 9.00yb a 4.00yp

### CROESO I BAWB

alw i mewn am sgwrs.  
Rhagor o wybodaeth gan  
Bartneriaeth Ogwen – 602131.

**L. Sturrs**  
a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

## ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,  
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com

Yn oriau mân 15 Mawrth 1950 cwmpodd awyren fomio Avro Lincoln o RAF Scampton, Swydd Lincoln uwchben Bethesda. Ni fu i'r un o'r criw, rhwng 22 a 32 oed, oroesi.

Eleni, 80 mlynedd ers Brwydr Prydain, mae Dr Hazel Pierce, Aelod Cyswllt Canolfan Stephen Colclough ar Hanes a Diwylliant y Llyfr ym Mhrifysgol Bangor, wedi edrych i mewn i'r ddamwain hon i gofio'r chwe gŵr a gollodd eu bywydau, ac i gydnabod ymdrechion pobl leol a gynorthwyodd yn yr ymgais i'w hachub y noson honno.

'Dynion ifanc oedd pob un o'r criw, rhai gyda theuluoedd ifanc a oedd eisoes wedi gwasanaethu eu gwlad gydag anrhydedd, ac wedi goroesi peryglon ofnadwy yn ystod y rhyfel,' eglura Hazel. 'Mae'n anodd derbyn eu bod wedi colli eu bywydau yn ystod adeg heddwch ar daith hyfforddi arferol.'

Ar ôl cael ei ddargyfeirio i RAF Fali oherwydd tywydd gwael, aeth y Lincoln am y cyfeiriad hwnnw gyda radio diffygiol a oedd yn golygu bod angen cyfathrebu ag ef ar ddau amledd. Fe'i gwelwyd ac fe'i clywyd yn yr awyr, ond ddeng munud yn ddiweddarach fe ddeffrodd Mr Owen Brown-Williams, Beili Dŵr yng Nghronfa Ddŵr Corfforaeth Bangor, Gerlan a'i wraig Agnes, i ruo peiriannau awyren. Wrth edrych drwy'r ffenestr, gwelsant oleuadau llywio awyren fawr. Roedd yr awyren fomio enfawr gyda rhychwant adenydd o 120 troedfedd ar gwrs sefydlog, a heb ddangos unrhyw arwydd o fod mewn trafferthion ond, yn ôl Owen, 'roedd yn edrych fel petai'n rhy isel mewn ardal mor fynyddig.'

Yn anffodus, roedd barn Owen yn gywir, a dim ond munudau i fwrdd yr oedd dinistr yr awyren fawr a'i chwe chriw. 'Clywsom ffrwydrad o fewn cyfnod byr iawn a neidiodd haen o dân i awyr y nos ym mhen pellaf Cwm Pen Llafar'. Hefyd yn dyst i'r ffrwydrad ofnadwy roedd ffermwyr mynydd a'i disgrifiodd fel 'pelen o dân yn y dyffryn gyda darnau'n llosgi yn gwasgaru i bob cyfeiriad.'

Ffoniodd Agnes Brown-Williams orsaf yr heddlu ym Methesda ar unwaith a gosod golau yn ffenestr ei hystafell wely i ddangos y ffordd i unrhyw un a oedd wedi goroesi. Roedd Gorsaf yr RAF yn Fali yn dal i geisio cysylltu â'r awyren, a chafodd sioc o dderbyn y newyddion anghredadwy, ac anfonwyd Tîm Achub Mynydd yr RAF allan i chwilio.

Cyrhaeddodd aelodau o'r Frigâd Dân y gwaith dŵr a rhannu'n ddau grŵp; un yn cael ei arwain gan Mr Owen Brown-Williams a'r llall gan Mr John Ogwen Thomas o Fferm Tyddyn Du, Gerlan. Yn y dyddiau cyn timau gwirfoddol Achub Mynydd, dynion fel y rhain

a fyddai'n mynd allan i helpu gan eu bod yn meddu ar wybodaeth leol fanwl, a byddent yn gallu nodi'r llwybr mwyaf diogel a chyflym i safle'r ddamwain.

Cychwynnodd y grwpiau achub am Gwm Pen Llafar dros dir corsio, llawn cerrig mawrion, mewn tywyllwch llwyr, gyda gwyntoedd cryfion a chawodydd trwm o law. Wrth iddynt ymlwybro dros bedair milltir o rostir parhaodd yr awyren i losgi, ond gallai'r grwpiau weld fflerau'n cael eu goleuo a roddodd obaith iddynt y gallai rhai fod wedi goroesi.

Ar ôl cyrraedd safle'r ddamwain, chwalwyd y gobaith a roddwyd gan y fflerau yn llwyr. Ni allai neb fod wedi goroesi gwrthdrawiad o'r fath, a oedd prin ychydig gannoedd o droedfeddi o dan y grib rhwng Carnedd Llewelyn a Charnedd Dafydd. Cafwyd hyd i bedwar corff bron yn syth yn y malurion a oedd yn mudlogi, tra bu'n rhaid chwilio am y ddau arall.

Esbonia Mr Chris Lloyd o dîm Achub Mynydd Dyffryn Ogwen: 'agwedd na chafodd ei hystyried yn y 1950au yw'r effaith ysgytiol y gallai digwyddiad fel hwn ei chael ar yr achubwyr.' Dywed Mr Lloyd: 'heddiw mae ymwybyddiaeth ac arbenigedd cwnsela i gynorthwyo achubwyr i ymdopi â phrofiad o'r fath.'

Yn y cwest ym Methesda cofnodwyd rheithfarn o farwolaeth drwy ddamwain, a nododd y crwner fod 'sut y canfu'r peilot ei hun yn y bryniau yn benbleth, ac y byddai'n amlwg yn parhau'n benbleth.'

Diolchodd hefyd i bawb a oedd wedi mynd allan i helpu'r rhai a oedd yn yr awyren. Ategwyd ei ddiolchiadau gan yr Arweinydd Sgwadron Hewitson o'r Fali, a nododd ei fod wedi ymdrin â damweiniau awyrennau yn yr ardal yn ystod y rhyfel, a 'gymaint y gwerthfawrogwyd y cymorth a roddwyd bob amser a'r caredigrwydd a ddangoswyd gan bobl ardal Bethesda i bersonél yr RAF a fu'n rhan o ymdrechion achub mewn damweiniau.'

Roedd yr awyren fomio enfawr wedi cwmpo ar gyrion ardal sy'n cael ei hadnabod fel mynwent i awyrennau oherwydd y nifer a oedd wedi cael damweiniau yno yn ystod y rhyfel. 70 mlynedd yn ôl ar 15 Mawrth 1950, er mawr dristwch, hawliodd chwe bywyd arall.

I gael mwy o wybodaeth am y ddamwain a'r chwe chriw a gollodd eu bywydau yn y man anghysbell hwnnw, ewch i wefan: Canolfan Stephen Colclough ar gyfer Hanes a Diwylliant y Llyfr ym Mhrifysgol Bangor <http://colclough.bangor.ac.uk/newyddion>

## CYMDEITHAS EDWARD LLWYD

## Arwydd y Gwanwyn

Tydan ni'n lwcus fel Cymry, yn y Ddraig Goch mae gennym y faner gorau yn y byd, heb amheuaeth. A pheth gwell na'r cennin Pedr fel arwyddlun? Mae hanes go iawn tu ôl i'r faner wrth gwrs a gallwn ni fynd i Ddinas Emrys, ger Beddgelert a sefyll uwchben ble roedd y Ddraig Goch a'r Ddraig Wen yn ymladd. Ond dyw'r stori yna ddim yn wir meddwch chi, ond a ydych chi'n hollol siŵr? Roedd ein gelynyon dros y ffin yn gwybod bod dreigiau yng Nghymru achos ar y mapiau cynnar doedd dim manylion i ddangos yn ein gwlad ddewr ni, dim ond y frawddeg 'Here be Dragons'!



Yn fy nyddiau i yn yr ysgol go brin fydd y cennin Pedr mewn blodau ar gyfer diwrnod ein nawddsant a'r cennin roedden ni'n gwisgo i'r ysgol ar ddydd Gŵyl

Dewi. Bechgyn drygionus oedden ni wrth gwrs a'n harfer oedd cnoi'r dail agosach at ein cegau. Roedd neuadd yr ysgol yn llawn o oglau cennin yn ystod y gwasanaeth

boreol. Plant ynte! Roeddwn i'n synnu gweld cennin Pedr mewn blodau tu allan i'r capel ble mae'n gymdeithas Cymraeg yn cyfarfod a hynny ar y 13eg o fis

lonawr! Tybed oedd hyn yn arwydd o'r newid hinsawdd? Dw'n i ddim, ond mae'r sinig ynof fi yn meddwl mai rhywbeth i wneud efo'r diwydiant blodau ydi hynny, wedi bod yn gweithio ar fagu gwahanol straen i ehangu'r tymor, siŵr o fod. Ond dw i ddim yn cwyno, mae'r blodyn yn ein sicrhau bod tymor y gwanwyn ar y ffordd a'r byd yn ailddechrau efo bywyd, a lliwiau, newydd. Ardderchog!

Dewch efo ni i fwynhau ein cefn gwlad, edrychwch ar ein gwefan cymdeithasedwardllwyd.cymru i weld os ydan ni'n cerdded yn eich ardal. Bydd croeso mawr i chi!

**Rob Evans**

## MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd  
Atgyweirio MOT  
Gwasanaethu Cerbydau  
Cydbwysu Teiars  
Batris  
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com  
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,  
Gwynedd LL57 4AY

STEPHEN JONES  
TREFNWR  
ANGLADDAU CYF

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976  
Ebst: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com



Manylion Cyswllt  
Cynghorwyr Sir  
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn  
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái  
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda  
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes  
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen

@PlaidCymruOgwen

## Siân Gwenllian

Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon



## CYMORTHFYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR  
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE  
(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

# Côr y Penrhyn gan Derfel Roberts

**Dathlu G yl Ddewi ym Maesdu**  
"Côr hyblyg ydy'n côr ni" meddai Derek Griffiths o'r ail denoriaid wrth gerdded i mewn i glwb Golff Maesdu a doedd o ddim yn cyfeirio at hyblygrwydd corfforol pan ddywedodd o hynny. Yn hytrach, yr hyn oedd ganddo mewn golwg oedd parodrwydd y bechgyn i berfformio ymhob sefyllfa. Aeth Derek yn ei flaen i ddweud, "fel arfer, neuaddau tref a phentref neu gapeli ac eglwysi ydy'r lleoedd i gynnal cyngherddau ond rydan ni wedi



Derek Griffiths, o blith yr ail denoriaid

hen arfer perfformio mewn lleoedd anghyfarwydd." Cyfeiriad oedd hynny at y ffaith bod y côr wedi canu ar lwyfannau mawr

megis Glastonbury, Eglwys Gadeiriol America yn Washington neu neuaddau pentref yng nghefn gwlad Cymru.

Clwb Golff Maesdu, Llandudno oedd y fangre ar Nos Sadwrn, Chwefror 29 pan wahoddwyd y côr i'r clwb i ddathlu gŵyl ein nawddsant ac mae canu mewn ystafell lle mae bar yn brofiad anghyfarwydd i fwyafrif yr aelodau. Bid a fo am hynny, cafodd y côr groeso cynnes gan yr aelodau a'r gwesteion oedd wedi

mwynhau pryd o fwyd blasus yn cynnwys cig oen Cymreig a danteithion eraill cyn ymlacio i fwynhau'r adloniant.

Roedd Iori Jones, Glanwydden, sy'n gyn-lywydd y clwb, wedi gwirioni ar y canu a dwedodd o a sawl aelod arall, "Dyma'r noson orau eto hogia a diolch i chi am ddo." Er nad oedd pawb yn siarad Cymraeg roedden nhw oll yn unfarn bod noson gyfan o ganeuon Cymraeg a Chymreig wedi bod yn amheuthun ac yn wir, yn agoriad llygad i lawer.



## Cymeriadau'r Côr

**Cyfes yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn.**

Yr aelod y mis hwn yw **Tomos Morris Jones** o Dregarth sy'n olygydd teledu dan hyfforddiant gyda Cwmni Da. Enillodd Tomos wobwr RTS (Royal Television Society) Cymru yn ddiweddar am ei ffilm fer, 'Elis Derby, Fi ac OCD'.

**Tomos Morris Jones gyda'r tlws a enillodd am ei ffilm fer.**

- Be' ydy dy enw llawn?** Tomos Morris-Jones
- Oed?** 22
- Gwaith** Golygydd Teledu Dan Hyfforddiant gyda Cwmni Da
- Lle wyt ti'n byw?** Tregarth
- Un o lle wyt ti'n wreiddiol?** Bangor
- Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifo orau?** Cyfeillgar, amyneddgar, diog.
- Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?** 6 mlynedd
- Pa lais wyt ti?** Bas 2
- Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Ymuno ar y dechrau gydag ambell hogyn arall

o'r Chwched Dosbarth yn Ysgol Tryfan ar ôl cael cynnig gan ein athro cerdd ar y pryd (Owain Arwel Davies) i ganu ar gae Stadiwm y Mileniwm gyda'r côr cyn gêm rygbi rhwng Cymru a'r Alban. Heb ddychmygu baswn i'n dal yn aelod 6 mlynedd wedyn!

**10 Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?**

Mae 'Mor Fawr Wyt Ti' wedi dod yn ffefryn i mi ers iddi gael ei hychwanegu i gatalog y côr, ond mae un o'r caneuon mwyaf diweddar i'r côr ddysgu - 'Tui Egeo', hefyd wedi dod yn ffefryn yn syth.

**11 Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?** Bruce Springsteen.

**12 Beth ydy dy farn di am ganu pop?**

Os ydi'r gân yn un dda, dim bwys gen i pa genre ydi'r gerddoriaeth. Braff cael amrywiaeth.



**Amser ni**

A oes ganddoch ddi-ddordeb mewn gwirfoddoli gyda plant anabl a'u teuluoedd?

**NEU**

A oes ganddoch ddi-ddordeb rhoi egwyl fer i blentyn anabl dros dro?

(01286) 674 686

AmserNi@Gwynedd.Llyw.Cymru

**Arfbais Douglas Arms**

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw

Noson Cwis Yr ail nos Fawrth bob mis - 20:00

**ORIAU AGOR**

Llun - wedi cau

Mawrth - Gwener 18:00 - 23:00

Sadwrn 15:30 - 00:00

Sul 13:00 - 15:00 a 20:00 - 23:00

douglasarmsbethesda.com

**01248 600219**

**JOHN ROBERTS**

**Paentiwr**

**Papurwr**

**Teilsiw**

**Symudol: 07747 628650**

**Ffôn: 01248 600995**

# gair neu ddau

**John Pritchard**

## HOREB

Diolch na phrynais docyn. Roeddwn wedi bwriadu gwneud hynny. Fûm i erioed yn Stadiwm Liberty yn Abertawe, lle bydd tîm pêl droed Cymru'n wynebu tîm Awstria ddiwedd Mawrth. Ac er y byddwn wedi mwynhau mynd yno, fyddaf fi ddim yn agos at y stadiwm y noson honno. Caiff y caiff y gêm ei darlledu'n fwy; ond debyg na chaf ei gweld na'i chlywed. Trueni am hynny o gofio mai'r gêm hon a'r un yn erbyn yr Unol Daleithiau yng Nghaerdydd y nos Lun ganlynol fydd y cyfle olaf i rai o'r chwaraewyr wneud argraff ar Ryan Giggs cyn iddo enwi'r garfan ar gyfer cystadleuaeth yr Ewros yr haf hwn.

Mae hynny'n rhagdybio wrth gwrs y caiff yr Ewros eu cynnal ac na chânt eu gohirio oherwydd y pryder ynghylch Coronafeirws. Mae llawer o bethau pwysicach na phêl

droed. Un ohonynt yw iechyd; ac os gohirio, bydd rhaid derbyn mai dyna'r peth synhwyrol i'w wneud. Ymysg y pethau eraill sy'n bwysicach na phêl droed y mae capel ac eglwys. Ac felly, mater syml oedd penderfynu nad awn i Abertawe wedi i mi gael gwahoddiad i oedfa ym Mynytho noson y gêm. Yn wahanol i Stadiwm Liberty, mae lleoliad yr oedfa'n gyfarwydd i mi. Bûm ynddo gannoedd o weithiau. Horeb oedd un o bedwar capel fy ngofalaeth gyntaf, a thros y naw mlynedd a hanner y bûm yno cefais groeso cynnes a chefnogaeth barod gan aelodau ffyddlon a chydweithwyr brwd mewn oedfa, Ysgol Sul, dosbarth Beiblaidd a chyfarfodydd plant ac ieuencid.

Mae'n chwith meddwl na chaf fynd am y tro cyntaf i'r Liberty. Ond mwy chwith yw sylweddoli mai dyma'r tro olaf yr af i Horeb gan mai cyfarfod datgorffor'r eglwys a chau'r capel fydd yno. Mae dros ddeng mlynedd ar hugain ers i mi adael Horeb, ac yn naturiol a minnau ynghlwm wrth fy ngofalaeth bresennol prin fu'r cyfleoedd i fynd yno ers sawl blwyddyn. Ond gwn o brofiad rhy gyfarwydd o'r hanner mai noson ddigon trist sydd o'm blaen ddiwedd y mis.

Felly y mae bob tro wrth gau capel am y tro olaf.

Wn i ddim beth yw bwriad yr aelodau sy'n weddill yn Horeb. Caf wybod y noson honno os ydynt am fynd i gapel arall ai peidio. Gobeithio mai dyna ddiwydd. Ond mi wn nad Horeb fydd y capel olaf i gau. Bydd mwy nag un arall yn cau eleni, a'r flwyddyn nesaf, a'r blynyddoedd dilynol. Ni all llond dwrn o aelodau gadw adeiladau sy'n heneiddio ac yn mynd yn gynyddol ddrud i'w cynnal bob blwyddyn.

Mae'n ofid gwirioneddol i mi weld unrhyw gapel yn cau. Ond nid cau adeilad yw'r pryder mwyaf. Ers blynyddoedd yn yr ardal oedd chwarelyddol daethom yn gyfarwydd â chau capeli. Y gwir yw bod yma ormod ohonynt; roedd yma gapeli y gellid dadlau na ddylent fod wedi eu codi o gwbl. Wnes i erioed ddeall pam fod angen dau gapel o'r un enwad yn Llanberis, lai na dau gan llath oddi wrth ei gilydd. Gwelsom gapeli'n cau a'r aelodau ffyddlon yn symud i gapel arall. Ond erbyn hyn, mewn sawl lle, mae capeli'n cau am nad oes fawr o neb ar ôl. Dyna'r gwir bryder; a dyna destun gweddi, ar i Dduw godi eto bobl iddo'i hun yn ein plith.

## Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái,  
Bangor LL57 4HU ☎ 01248 354280  
Eirlys Edwards, Sŵn y Coed, 23 Pentref Llandygái,  
Bangor LL57 4HU ☎ 01248 351633

### Cyfarchion Penblwydd

Penblwydd hapus i Robin Jones, 14 Pentref Llandygái, a fydd yn 96 ar 20 Fawrth. Mwyhewch y dathlu Robin!

### Profedigaeth

Rydym yn cydymdeimlo gyda Catherine Ann a Richard Llywelyn o'r Hen Ficerdy, Llandygái a'r teulu. Bu farw eu mam Catherine Beryl Hughes ar Chwefror 12 yn 93 oed.

### Eglwys Sant Tegai

*Gwaith Atgyweirio Mawrth 2020*  
Bydd rhan gyntaf o waith atgyweirio yr eglwys yn dechrau ar Fawrth 9<sup>fed</sup> 2020.

Y pensaer siartredig yw Mr Geoff Stott o Gwmni Paterson, Macaulay & Owens a'r adeiladwyr yw Cwmni William Taylor Masonry Contractors. Sylwer: Bydd yr eglwys ar gau i'r cyhoedd trwy gydol mis Mawrth. Bydd y gwaith tu allan yn cychwyn ym

misoedd yr haf.

Braf yw cael dechrau ar y gwaith pwysig yma yn ogystal a chontract torri coed yn y fynwent.

### Gwellhad buan

Dymuniadau gorau am wellhâd buan i bawb yn yr eglwys ac yn y pentref sydd yn parhau i dderbyn triniaeth neu i ddisgwyl sylw yn yr ysbyty.

### Standin Ysbyty Gwynedd

Diolch i bawb a wirfoddolodd i werthu nwyddau yn standin Ysbyty Gwynedd ar Fawrth 16eg. Mae'r elw yn cyfrannu at yr ymgyrch i gyllido'r ail ran o atgyweirio ein heglwys hanesyddol.

### Gwasanaethau Sant Tegai Llandygái

Cynhelir y gwasanaethau arferol am 10.15 ddydd Mercher ac am 11.00 ddydd Sul yn Neuadd Talgai.

## Contractwyr Trydanol

### Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig  
Penralla, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257  
Ffacs: 01248 601982

E-bost: [info@jonesandwhitehead.co.uk](mailto:info@jonesandwhitehead.co.uk)



Ni fydd gwasanaeth yma ar fore Sul Mawrth 29<sup>ain</sup> - cynhelir gwasanaeth unedig Bro Ogwen am 9.30 yn Eglwys Santes Fair (Gelli) Tregarth. Cofiwch gadw golwg ar hysbysfwrdd yr eglwys rhag ofn bydd newidiadau ar fyr rybudd.

### Rhagflas o wasanaethau'r Wythnos Fawr

Ebrill 9<sup>fed</sup> Dydd Iau Cablyd - Gwasanaeth Unedig Bro Ogwen Eglwys St Cedol Pentir 6.00 yh Ebrill 10<sup>fed</sup> Y Groglith -

Gwasanaeth Unedig Bro Ogwen Eglwys Crist, Glanogwen 2.00yp Eleni, ni chynhelir yr Orymdaith Tystiolaeth Ffydd o St Tegai i St Cross Ebrill 12<sup>fed</sup> Y Pasg - Gwasanaeth Eglwys St Tegai Cymun Bendigaid am 11.00

I hysbysebu yn  
**Llais Ogwan,**  
**Neville Hughes**  
600853

# CHWILAIR

## Offer Adeiladwyr

S	L	E	F	E	L	W	I	R	O	D	A	A	W	F	H	R	I	E	J
L	G	C	M	B	V	B	F	H	X	J	U	I	S	S	V	S	H	E	I
M	G	W	V	H	M	D	I	W	H	U	Z	M	G	X	V	A	D	D	N
A	P	A	A	U	T	Q	L	U	S	O	F	R	R	P	Y	Q	Z	G	R
H	C	U	M	R	R	W	L	G	N	O	I	Y	R	I	A	S	Z	U	T
F	D	X	U	P	Y	W	R	H	O	W	C	Q	H	W	E	H	O	Y	E
E	G	E	O	M	W	H	E	P	D	R	T	T	C	B	B	C	U	U	J
P	L	T	M	I	E	V	V	R	D	C	D	B	B	F	R	F	O	G	J
V	I	I	R	R	L	X	I	I	M	H	T	D	L	T	O	N	S	K	O
P	W	R	C	M	K	F	C	B	O	R	C	Y	P	X	E	V	R	Y	H
S	T	M	R	E	E	F	Y	J	D	Z	W	H	B	R	C	W	O	S	C
R	A	I	X	R	N	I	L	X	J	H	J	M	P	B	E	W	T	E	X
M	D	X	K	F	U	P	C	Q	T	Y	O	L	I	L	F	N	E	R	Z
Q	R	O	C	W	T	D	G	R	W	S	Y	L	Z	E	B	E	A	J	K
J	C	L	I	N	L	R	O	V	O	F	G	J	P	W	P	G	S	O	W
J	J	R	Q	U	L	M	F	S	F	V	T	X	E	U	G	H	S	L	Z
E	C	A	F	X	I	W	T	E	Z	H	K	V	A	G	B	N	N	K	A
S	D	S	I	K	O	G	C	D	<del>Y</del>	<del>S</del>	<del>G</del>	<del>O</del>	<del>L</del>	H	Y	B	S	I	U
R	O	X	A	G	C	Y	M	Y	S	G	Y	D	D	C	X	R	A	E	E
K	K	D	A	N	T	O	G	W	B	M	B	J	R	F	U	N	K	B	Z

Yn y chwilair mis yma mae enw DEUDEG OFFER FYDDAI ADEILADWYR YN DDEFNYDDIO YN EU GWAITH i'w ddarganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân). Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn MAWRTH 27. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobwr.

Roedd eich atebion lonawr chi, Dilys A. Pritchard-Jones yn gywir, ond yn anffodus ychydig ddyddiau yn hwyr trwy'r post. Aeth rhywbeth o'i le gyda'r Chwilair y mis diwethaf, ac ni ddangoswyd enwau'r rhai a gafodd atebion cywir i Chwilair lonawr, nac enw'r enillydd. Felly dyma'r atebion ac enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir i Chwilair lonawr, sef DEUDEG O HWIANGERDDI A CHANEUON ERAILL I BLANT

**Dyma atebion lonawr:** Bachgen bach o dincer; Bwrw glaw; Ceiliog bach y dandi; Dacw mam yn dwad; Dau gi bach; Gee cefyl bach; I fewn i'r arch a nhw; Mynd drot drot; Oes gafr eto; Pwsi meri mew; Robin goch; Si hei lwli mabi.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir:** Wendy Dore, Garneddwen; Marilyn Jones, Glanffrydlas; Margaret Williams, Erw Las; Mrs Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf, Bethesda; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Doris Shaw, Bangor; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Barbara Anne Conlan, Glanogwen; Merfyn a Laura Jones, Halfway Bridge, Bangor; Margaret Williams, Fron Erch, Abererch; Carys Parry, Glanogwen; Gwenda Bowen, Gerlan; Ogwena Griffith; Cian Owain Hughes, Gaerwen; Rhys Thomas, Mynydd Llandygai; M. A. Jones, Rachub; Begw Mai Williams, Bryn Caseg, Bethesda; Selwyn Owen, Ffordd Ffrydlas, Bethesda; Myfanwy Jones, Gaerwen; Mair Jones, Ffordd Bangor; Elizabeth Buckley, Tregarth; Rosemary Williams, Tregarth; Helen Jones, Erw Las, Bethesda; Elfed Bullock, Maes y Garnedd, Bethesda; Dilys W. Griffith,

Sefydlwyd 1969

**m.hughes**  
**a'i fab**

**CONTRACTWYR TOI**  
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda  
☎ 600633  
☎ (symudol) 07702 583765  
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.  
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.  
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am  
waith diguro.*

**Modurdy Central**

**M.O.T. ar gael**  
**Hefyd**  
**Trwsio a Gwasanaeth**  
**Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda**  
☎601031

**SAMARIAID**  
Mac  
**Llinell Gymraeg**

**0808 164 0123**

ar gael bob nos rhwng  
7.00pm ac 11.00pm

Abergele **Enillydd lonawr oedd:** Begw Mai Williams, 1 Bryn Caseg, Bethesda.

**Dyma atebion Chwefror: ESGOBION CADEIRLAN BANGOR 1559 - 2020.** Rowland Meyrick (1559-1566); Hugh Bellot (1586-1595); Lewis Bayly (1616-1631); Humphrey Humphreys (1689-1701); Zachary Pearce (1748-1756); Watkin Williams (1920-1924); Charles Green (1928-1944); Gwilym Williams (1957-1982); Barry Morgan (1993-1999); Saunders Davies (2000-2004); Anthony Crockett (2004-2008); Andrew John (2008 -)

**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir:** Barbara Anne Conlan, Glanogwen; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Merfyn a Laura Jones, Halfway Bridge; Rosemary Williams, Tregarth; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Marilyn Jones, Glanffrydlas; Wendy Eccles, Llanllechid; Gwenda Bowen, Gerlan; Carys Parry, Glanogwen. **Enillydd Chwefror oedd:** Rosemary Williams, 19 Ffordd Tanrhiw, Tregarth, Bangor.

## Rachub a Llanllechid

Emlyn Williams, 13 Hen Barc, Llanllechid,  
Bangor, LL57 3RS. 01248 605582 a  
07887624459 henbarc13@gmail.com

### Newyddion

Phillips David Michael: Dymuna Iona, Cerys a'r teulu ddiolch i bawb yn ardal Rachub a Bethesda am eu harwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu colled trist o golli gŵr a thad arbennig iawn. Diolch hefyd am y rhoddion tuag at Walton Centre I.C.U. Diolch hefyd i Stephen am ei wasanaeth.

Dymunwn yn dda i Glenys Roberts, Hen Barc - a dreuliodd ychydig o wythnosau yn Cae Garnedd, Bangor wedi iddi gael codwm yn ei thŷ.

Dydd Llun, Chwefror 24, 2020 bu angladd Marion Owen (Griffiths gynt) yn Y Foel, Sir Drefaldwyn a hithau'n 88 mlwydd oed.. Er ei bod wedi gadael yr ardal am y canolbarth ers dros drigian mlynedd daliai Marion i gadw cysylltiad gyda'i theulu a'i chyfeillion bore oes yn yr ardal yma yn rheolaidd. Anfonwn ein cydymdeimlad at ddwy gyfneither iddi, sef Helen Williams, Llwynbleddyn a Deila Griffiths ym Metws y Coed, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn â Brenda Baston oherwydd marwolaeth ei chymar yn ddiweddar. Hefyd, cydymdeimlwn ag Angharad a Joshua Hughes, Stryd Britannia, oherwydd marwolaeth mam a nain, sef Eira Hughes o Fethesda a oedd yn aelod ffyddlon a gweithgar yng Nghapel Carmel.

Trist oedd clywed am farwolaeth Hazel Holton, Plas Ogwan a symudodd yno o Stryd Fawr, Rachub.

Daeth gweithwyr Cyngor Gwynedd i lenwi sawl twll yn Maes Bleddyn wedi i'r cynghorydd cymunedol Godfrey Northam gwyno. Yn anffodus mae ambell dwll arall wedi ymddangos ers hynny.

Ar gais y cynghorydd Michael Williams, cyfeiriodd Cyngor Bethesda y broblem o barcio anystyrlon mewn dau le i Gyngor Gwynedd am ddatrysiaid.

Bydd y cynghorydd sirol Paul Rowlinson yn trafod y broblem o groesi'r ffordd yn Sgwâr Rachub yn ddiogel efo swyddogion Cyngor Gwynedd.

### CLWB HANES RACHUB A LLANLLECHID.

Nos Fercher, Mawrth 25ain  
am 7 o'r gloch yn Festri Capel Carmel.

**'Ddoe yn y Dyffryn [3]'**  
**Dr. John Elwyn Hughes.**  
CROESO CYNNES!

### Clwb Hanes Rachub, Caellwyngrydd a Llanllechid

Cafwyd sgwrs ddifyr a diddorol dros ben yng nghyfarfod Mis Chwefror, gan Gruff a Nia Ellis Williams, 'Yr Hen Bwl', Llanllechid. Ac yn wir, testun y sgwrs oedd 'Yr Hen Bwl', sef yr hen dŷ tafarn sydd ar y sgwâr yn Llan. Mae'n hollol amlwg bod Gruff a Nia wedi gwneud ymchwil trylwyr iawn i hanes yr adeilad, ac i'r holl bobol a fu'n byw yno ar hyd y canrifoedd! Er bod y manylion yn llawer rhy niferus i'w rhestru yma, mae nifer fawr o ffeithiau diddorol yn aros yn y côf, e.e. 'Tŷ Newydd' oedd enw gwreiddiol y Bwl, [yn y 19fed] ganrif, lle bu teulu Robert Evans yn bragu a gwerthu cwrw yn ogystal â gwneud bwyd a gwerthu nwyddau. Roedd 'Tŷ Newydd' yn ganolfan brysur iawn, yn enwedig ar noson Ffair Llan. Roedd hanes trist iawn i noson Ffair Llan ym 1820, pan ymosodwyd ar ŵr tu allan i'r dafarn gan griw o lanciau, ac yn anffodus, ymhen dyddiau, bu farw'r gŵr hwnnw. Pris mawr i'w dalu am beidio talu ei ddyledion!

Ym 1890, gwerthwyd y 'Bull' i gwmni Greenall Whitley am £650, a hwy oedd y perchnogion hyd at 1983.

Mae'n bosib fod llawer yn cofio mai 'Milverton' oedd enw'r tŷ wedi iddo gau fel tŷ tafarn ym 1971, a dyna fu ei enw hyd nes i Gruff a Nia ddod yno i fyw, a newid yr enw i'r 'Hen Bwl'. Yn sicr, maent wedi ymgartrefu mewn adeilad sy'n dalp o hanes yr ardal, ac, yn ogystal, maent wedi etifeddu ffrwd fechan sy'n llifo'n ddi-baid drwy eu selar, - un sy'n hudo llyffantod yno gan achosi difyrwch mawr i aelodau ieuengaf y teulu! Diolch yn fawr i'r ddau ohonoch am sgwrs ddifyr a chartrefol!

Cyfarfod nesaf - Mawrth 25ain, 'Ddoe yn y Dyffryn [3]', Dr. John Elwyn Hughes.

### Capel Carmel

Trefn Gwasanaethau (am 5.00yp oni nodir yn wahanol.)

Mawrth 22: Gweinidog.

Mawrth 29ain - Y Parchg. Mererid Mair

Ebrill 5ed - Gweinidog

Ebrill 12ed - Y Parchg. Alan Spencer

Ebrill 21ain - Y Parchg. Ddr. Dafydd Wyn Wiliam

Croeso cynnes iawn i bawb.

Ysgol Sul am 10.30. Clwb Dwylo Pysur, bob nos Wener am 6.30.

### Colled Enfawr

Bu farw aelod ffyddlon a gweithgar o'n plith ni yng Ngharmel, sef Eira Hughes, Awel-y-Nant, yn ofnadwy o sydyn ym mis Chwefror. Bydd mwy o wybodaeth i ddilyn yn y rhifyn nesaf o'r Llais.

### Clwb Dwylo Pysur

Mae aelodau'r clwb wedi bod yn brysur yn paratoi ar gyfer gwasanaeth Dydd Gŵyl Ddewi. Fe fuon nhw'n ymarfer eu gwaith ac yn gosod blodau o amgylch y capel a'r ysgoldy.



Dyma lun dwy ohonyn nhw'n brysur wrth eu gwaith, sef Charmaine ac Efa Lois.

### Ysbyty

Pan oedd y Llais ar fin mynd i'r wasg clywsom bod Mrs. Helen Wyn Williams wedi ei chymryd i Ysbyty Gwynedd yn dilyn codwm y tu allan i Gapel Jerusalem ddydd Gwener 6 Mawrth. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddi!

## SIOP OGWEN

33 Stryd Fawr, Bethesda

Peidiwch anghofio am Siop Ogwen.  
Galwch draw!

Anrhegion a chrefftau lleol, Cardiau, Llyfrau, Coffi Poblado, Jam Cartra, CDs, Lluniau, Gemwaith, Sebon, Canhwyllau, Dillad, Golwg, Y Cymro, Llais Ogwan a llawer mwy!

Cewch archebu llyfrau Cyngor Llyfrau Cymru trwy'r siop, neu gylchgronau (e.e. Barn, Mellten, Bore Da, Y Traethodydd, O'r Pedwar Gwynt ayyb) a CDs hefyd.

Ar agor ddydd Mercher (10-2),  
Dydd Iau /Gwener (10-5) a dydd  
Sadwrn (10-3).

siop@ogwen.org

**01248 208 485**

## CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythrau ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Carreg Felin  
Llandegfan  
Ynys Môn  
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653



## Talybont

Neville Hughes, 14 Pant,  
Bethesda ☎ 600853  
Barbara Jones,  
1 Dol Helyg, Talybont  
☎ 353500

Ychydig iawn o newyddion sydd gennym y mis yma. Dowch, bobl Talybont, mae'n rhaid bod rhywbeth o ddiddordeb i ddarlennwyr y 'Llais' wedi digwydd yn ein hardal ni! 'Rydach chi'n gwybod lle 'dw i'n byw! (B.J.)

### Hen Nain

Anfonwn longyfarchiadau cynnes i Ben a Lisa o Norwich, ar enedigaeth Noah Ben ar y 10fed o Chwefror. "Norwich", medda' chi, "mae fan'no'n bell iawn o Dalybont?"

Ydi, mae'n debyg, ond, mae Ben yn fab i Neil ac Elaine Hodgkins; sef, merch Sheila a'r diweddar Barry Owen, Millbank, Dolhelyg, sy'n gwneud Sheila yn hen-nain am y tro cyntaf.

Er gwaetha'r pellter, rydw i'n siŵr na fydd hi'n hir cyn i Ben ddod â'i fab bach newydd i gyfarfod â'i hen nain. Mae Sheila, a'r cymdogion, yn edrych ymlaen yn arw iawn.

### Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Seren Unsted, 3 Dolhelyg, ar gwblháu ei harholiadau, a chymhwyso fel nyrs ddeintyddol. Un ardderchog ydi hi, hefyd! Pob bendith iti, Seren, ar dy yrfa ddewisol.

### Y Llyfrgell Deithiol

Ga'i apelio, unwaith eto os gwelwch yn dda, am gefnogaeth i'r Llyfrgell Deithiol? Erbyn hyn, mae Wil yn aros mewn dau le. Mae o'n cychwyn wrth rif 2 Cae Gwigin ac yn dod i fyny i Ddolhelyg cyn gadael y pentref.

Mi synnech faint o lyfrau diddorol sydd ganddo - Cymraeg; Saesneg; rhai print bras; cyfrolau'n syth o'r Wasg; nofelau; bywgraffadau; llyfrau hyfforddiant ar bob math o bynciau - anghofiwch 'You Tube', ffrindiau!

Mae Wil yn mynd i drafferth mawr i chwilio am lyfr at ddant pawb. Mi fyddai'n biti garw pe gollem ei wasanaeth.

### Baw Ci

Mae Rachel, 10 Dolhelyg, wedi gofyn yn garedig a wnawn ni dynnu sylw trigolion y pentref at broblem baw ci ar y pafin, sy'n dal i fodoli, er gwaetha'r rhybuddion i gyd.

Mae'r ateb yn syml. Os ydi'ch ci yn maeddu, codwch y baw, rhowch o mewn bag plastig a'i roi mewn un o'r biniau pwrpasol. Os oes rhywun angen gwersi, gofynnwch i Judy, Tŷ Cerrig. Mae hi'n batrwm i bawb sy'n berchen ar gi.

### Diolch a Chydymdeimlo

'Rydym ni i gyd, yn Nhalybont, mor ddiolchgar i bawb fu'n gyfrifol am ein hamddiffyn rhag llifogydd, ac yn cydymdeimlo o waelod calon â'r cymunedau oll sydd wedi dioddef y fath difrod yn ystod mis Chwefror.

### Eglwys St Cross

*Gwasanaethau'r Sul*  
Mis Mawrth:  
22/03 - Y Garawys IV - Sul y Fam 11.00yb.  
29/03 - Y Garawys V - Sul y Dioddefaint - 9.30yb.  
Gwasanaeth plwyf Bro Ogwen yn Eglwys Sts Fair, Gelli (DIM gwasanaeth yn St Cross)

Mis Ebrill:  
05/04 - Y Garawys VI - Sul y Blodau.  
11.00 a.m.  
12/04 - Sul y Pasg - 11.00yb.  
19/04 - 2il Sul y Pasg - 11.00yb.

*Y Garawys:*  
Pob Nos Fawrth:  
7.00yh. - 7.30yh. Eglwys Crist, Glanogwen - Gorsafoedd y Groes

Cinio Garawys:  
12.00 - 1.30yp. Ebrill 2il, Eglwys Sts Fair, Gelli - £5.00

Yr Wythnos Fawr:  
9/04 - Nos Iau Cablyd - 6.00 p.m. Eglwys St Cedol, Pentir - Gwasanaeth Cymun  
10/04 - Dydd Gwener y Groglith - 2.00yp. Eglwys Crist, Glanogwen  
Bore Coffi: Dydd Mawrth, Ebrill 7fed, 10.30 a.m.

*Cofrestr Etholwyr Plwyf Ardal Weinidogaethol Bro Ogwen:*  
Bob pum mlynedd mae'r Eglwys yng Nghymru yn gofyn i bob plwyf baratoi cofrestr newydd o blwyfolion. Os ydych am gael cofnodi eich enw ar y gofrestr (er mwyn cymryd rhan yng nghyfarfodydd yr eglwys a phleidleisio am swyddogion), gofynnir i chi gysylltu â Warden unrhyw un o Eglwysi Bro Ogwen am fanylion pellach a ffurflen gais.

### CAPEL BETHLEHEM

#### Oedfaon

Mawrth 22: Gweinidog.

Mawrth 29: Oedfa.

Ebrill 05: Mr. D. Glyn Williams, Llandudno.

Ebrill 12: Gweinidog.

Ebrill 19: Parchg. D. Rees Roberts.

Ebrill 26: Gweinidog.

Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Ysgol Sul am 10 o'r gloch y bore. Croeso cynnes i bawb.

#### Ysgol Sul

Ar Fawrth 1af, Dewi Sant oedd thema'r bore a bu'r plant wrthi'n brysur yn gwrando ar ei

hanes, yn gwneud lluniau a chanu amdano. Diolch i Anti Barbara am y cacennau cri (yn lle'r bisgedi arferol) a'r diod o ddŵr (addas iawn wrth ddathlu Gŵyl Ddewi!)

#### Ysbyty

Yn dilyn codwm yn ei chartref mae Mrs. Enfys Jones wedi derbyn llaw-driniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Mae hi bellach yn Ysbyty Eryri ac yn gwella. Mae ei phriod, Mr. Llew Jones, ym Mhlas Ogwen ar hyn o bryd, a'r gobaith yw y caiff y ddau ddychwelyd i Gae Gwigyn pan fydd Enfys wedi gwella'n ddigon da. Mae pawb yn gweld eich colli yn y Capel a'r Bwrlwm, ac yn edrych ymlaen at eich gweld yn ôl.

#### Croeso'n ôl

Braf oedd medru croesawu Mrs. Eirlys Ellis i'r oedfa ar Sul, 23 Chwefror. Hyn wedi absenoldeb o bedwar mis yn dilyn triniaeth yn yr ysbyty. Roeddem wrth ein bodd ei gweld yn eistedd yn ei sedd arferol.

#### Rhoddion i Dŷ Gobaith

Mae grŵp clytwaith brwdfrydig a hwyliog yn cyfarfod yn festri'r Capel bob yn ail ddydd iau o dan arweiniad celfydd Angharad.



Dyma rai o'r aelodau'n plygu eu cwiltiau lliwgar i'w hanfon i Dŷ Gobaith, Dyffryn Conwy. Bydd y plant bach yn siŵr o'u hoffi'n fawr iawn.



### TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,  
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.  
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531

01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com

## Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,**  
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB  
☎ 01248 601318  
E-bost: carys16@hotmail.com

### Moelyci neu Moel-y-Ci?

Chwi ddarllenwyr cyson y Llais, rwyf yn siŵr eich bod yn gyfarwydd â'r bregeth sy'n dilyn! Ond, dyfal donc gan obeithio bod y maen yn dod i'r wal.

Yn y gorffennol cofnodai fapiau Arolwg Ordnans y bryn rhwng Pentir, Rhiwlas a Mynydd Llandygai fel Moel-y-Ci. Dyma sut mae llawer o newydd ddyfodiaid i'r ardal yn ynganu'r enw ac rwyf wedi clywed mwy nag unwaith rhai yn dweud Dog Mountain.

Cam sillafu rhyw syrfewr yn y gorffennol sy'n gyfrifol am y cam sillafu. Moelyci, fel enw'r fferm sy'n gywir.

Bu i swyddogion presennol yr Arolwg Ordnans dderbyn y ddadl bod yr enw yn darddiad o Moel Lleucu ac yn 1789, y sillafu a gofnodwyd oedd 'Moelycci'.

Mae'r fersiwn gyfredol o fap OL17 yn dangos y sillafu cywir am y tro cyntaf ond dim dyna ddiwedd y frwydr. Mae angen i ni gyd fel ardalwyr Dyffryn Ogwen addysgu'r bobl hynny sy'n defnyddio Moel-y-Ci. Nid oes gennyf unrhyw gywilydd erbyn hyn wrth dorri ar draws sgwrs gan ddweud 'Esgusodwch fi, gobeithio nad wyf yn ddiwylydd, Moelyci ydy'r ynganiad cywir'. Hyd yn hyn, mae pawb wedi ymateb yn gadarnhaol ac yn diolch am dynnu sylw i'r mater.

### Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru

Cafwyd cynhadledd hynod o ddiddorol ddydd

Sadwrn 29 Chwefror yn Neuadd Ogwen.

Pwrpas y gynhadledd oedd cydnabod y gwaith o gofnodi enwau caeau'r ardal. Hoffai Cynrig ddiolch yn fawr iawn am gymorth yr holl unigolion gyfrannodd i'r casglu.

### Eglwys St Cedol

*Clwb 100 Mis Ionawr 2020*

- 1<sup>af</sup> Rhif 7 – Catrin Williams, Waun Pentir
- 2<sup>aif</sup> Rhif 38 – Huw Redvers Jones, Llanddaniel
- 3<sup>ydd</sup> Rhif 26 – Catherine Roberts, Rhiwlas

*Clwb 100 Mis Chwefror 2020*

- 1<sup>af</sup> Rhif 29 – Beryl Riley, Rhiwlas
- 2<sup>aif</sup> Rhif 15 – Terry Jones, Caernarfon
- 3<sup>ydd</sup> Rhif 12 – Jac Hughes, Rhiwlas

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â ffrindiau a Chymdogion y ddiweddar Miss Margaret Griffith, Caerhun, a fu yn aeold ffyddlon yn yr Eglwys.

Hefyd daeth y newyddion trist am farwolaeth Bill Perry ar ôl cystyudd hir. Cydymdeimlwn â'i wraig Gaynor a'r meibion Tom, Steven a'r teulu yn eu profedigaeth. Anfonwn ein cofon atoch fel teulu yn eich galar.

Anfonwn ein cydymdeilad at deulu a ffrindiau y ddiweddar Elwyn Oswald-Jones yn euprofedigaeth. Roedd Elwyn yn ffrind ffyddlon i'r Eglwys.

### Arddangosfa Addurno Cacan

Bydd arddangosfa addurno cacan ar Nos Wener 20 Mawrth am 6.30y.h yn Y Ganolfan, Glasinfryn. dewch a Chacan sponge blaen hefo chi, i'w haddurno yn ystod yr arddagosfa, bydd defnydd i addurno y gacen i'w gael ar y noson. croeso cynnes i bawb.

### Bore Coffi

Bydd yr Eglwys yn cynnal Bore Coffi yng Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda ar 28 Mawrth am 10yb. Croeso cynnes i bawb.

### Ffair Grefftau

Bydd Eglwys St. Cedol yn cynnal Ffair Grefftau yn Neuadd Bentref Rhiwlas ddydd Sadwrn, 4 Ebrill o 11.00yb hyd at 4.00yp. Bydd yno amrywiaeth o stondinau, i gyd gan greffwyr lleol. Bydd cawl a lluniaeth ysgafn ar gael drwy gydol y dydd. Croeso cynnes i bawb.

### Hwyl Yr Wyl

Prynhawn Sadwrn 11 Ebrill – Sadwrn Pasg - Bydd prynhawn o hwyl yn cael ei gynnal yn y Ganolfan, Glasinfryn am 1.30yp. Bydd helia Basg ar gyfer y plant, gêm o bingo, tombola ac ambell stondin a lluniaeth ysgafn. Mae croeso cynnes i chwi ymuno yn yr hwyl.

### Gwasanaethau'r Sul

Mae'r Gwasanaethau bob bore Sul am 9.30yb, os na nodir yn wahanol. Croeso cynnes i chwi ymuno a ni yn y gwasanaethau:

- 22.3.20 Boreol Weddi
- 29.3.20 Gwasanaeth ar y cyd- Eglwys Y Santes Fair, Tregarth
- 5.4.20 Cymun Bendigaid
- 9.4.20 6yh Dydd Iau Cablyd – Gwasanaeth ar y Cyd Eglwys St. Cedol Pentir
- 10.4.20 2yh Gwener y Groglith – Gwasanaeth ar y Cyd Eglwys Glanogwen, Bethesda
- 12.4.20 6yh Gwasanaeth y wawr – Maes Parcio Llyn Ogwen 9.30yb Sul y Pasg – Cymun Bendigaid
- 19.4.20 Cymun Bendigaid
- 26.4.20 Boreol Weddi

## Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol y Gangen eleni yng Nghanolfan Cefnfaes ar nos Fawrth, 25 Chwefror.

Yn dilyn y busnes arferol derbyniwyd adroddiadau'r gwahanol swyddogion am y flwyddyn 2019. Yn ôl adroddiad y cadeirydd, Dr. Paul Rowlinson, uchafbwynt y flwyddyn oedd buddugoliaeth swmpus Hywel Williams yn Etholiad San Steffan ym mis Rhagfyr. Roedd yn falch o gyfraniad di-flino'r gangen yn yr ymgyrch honno. O ganlyniad i hyn, dywedodd bod Pwyllgor Etholaeth Arfon wedi enwebu Cangen Dyffryn Ogwen ar gyfer y teitl o "Gangen y Flwyddyn".

Wedyn aethpwyd ymlaen i ethol swyddogion ar gyfer 2020 fel â ganlyn:- Cynghorydd Bledwyn Williams (Cadeirydd);

Cynghorydd Catrin Wager (Is-Gadeirydd); Cynghorydd Neville Hughes (Trysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth); Cynghorydd Mary Jones (Ysgrifenndd y Gangen.)

Ein gwŷr gwadd oedd y Cynghorydd Cai Larsen o Gaernarfon, sydd yn arbennigwr ar ddadansoddi canlyniadau etholiadau. Roedd ei ddadansoddiad manwl o ganlyniadau Etholiad Cyffredinol Rhagfyr 2019 yng ngwledydd Prydain i ddechrau, ac yna o safbwynt Cymru gyfan, Etholaeth Arfon a Dyffryn Ogwen yn ddiddorol ac yn ddadlennol dros ben. Noson berffaith i'n symbylu ar gyfer gweithio'n galed tuag at ennill etholiad Comisiynydd yr Heddlu ym mis Mai, yn ogystal a dychwelyd Siân Gwenllian i'r Senedd yng Nghaerdydd yn 2021.

## Cerbydau Penrhyn

**CABIAU A BYSIAU MINI**

Ffôn: (01248) 600072

**Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd Contractau**

**Contractwyr i Wasanaeth Ambiwllans Gogledd Cymru**

## Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475  
www.owenswales.co.uk

# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Mae'n siŵr y bydd rhai ohonoch yn cofio i mi sôn dro'n ôl (yn rhifynnau *Llais Ogwan* Ionawr a Chwefror y llynedd) am Glwb Golff Nant Ffrancon. Derbyniais ragor o wybodaeth yn ddiweddar drwy law fy nghyfaill, John Llywelyn Williams, Ffordd Bangor, ac rwy'n ddyledus iddo am ganiatáu i mi weld a defnyddio sawl rhan o'r hyn a wŷr yntau am yr un

testun. Ac o sôn am John, mi hoffwn dynnu eich sylw at ei wefan ardderchog, ar y cyd â'i ferch, Lowri Wynne, sef 'Hanes Dyffryn Ogwen' sy'n cynnwys cyfoeth o wybodaeth ddiddorol ar amrywiaeth o bynciau sy'n adlewyrchu ymchwil fanwl, ddadlennol a diddorol.

Cyn mynd ymhellach, dw i am gynnwys ychydig sylwadau ar

y llun a gynhwysais yn rhifyn Chwefror 2019 ac fe'i gwelir isod.

Gallai'r llun hwn o rai o aelodau'r Clwb Golff fod wedi'i dynnu ddydd Sadwrn, Mai 10, 1930, ar achlysur cynnal agoriad swyddogol y Cwrs Golff yn Nant Ffrancon. Perfformiwyd y seremoni gan yr Arglwydd Penrhyn a'i briod a chredaf mai ef, sef Hugh Napier Douglas-Pennant (1894-1948) ydi'r gŵr yn yr het sy'n eistedd ar y chwith yn y tu blaen (a'i wraig, Sybil Mary, wrth ei ochr), y ddau'n llywyddion anrhydeddus y Clwb, a siŵr o fod wedi rhoi pryddes ar y tir i'r Clwb gan fod y cwrs golff ar stad y Penrhyn.

Yn dilyn y seremoni, cynhaliwyd gêm o golff arddangosiadol rhwng Mr Skirton (o Glwb Golff Bangor) a Mr Lewis Williams (o Glwb Golff

Porth Llechog ym Môn) yn erbyn Mr Hugh Lloyd a Mr Wheldon Jones a oedd yn cynrychioli Clwb Nant Ffrancon. Yna, roedd nifer o gystadlaethau wedi eu trefnu ac yn agored i'r aelodau i gyd.

Ysgrifennydd y Clwb ym 1930 oedd E. R. Hughes ac er byrred y cwrs (naw twll), gallai'r clwb fforddio chwaraewr proffesiynol i hyfforddi'r darpar aelodau, gŵr o'r enw H. Palferman a oedd wedi ennill Pencampwriaeth Broffesiynol Cymru yn Wrecsam yr un flwyddyn. Roedd Cwpan arian i'w dyfarnu'n flynyddol ond rhaid chwilota mwy i gael hyd i ragor o fanylion am hynny

Yn ein rhifyn nesaf, gobeithiaf ymhelaethu ar union safle'r clwb golff a thafu ychydig o oleuni ar y 'Club House'.

I'w barhau



## Y Dyddiadur toriadau (19)

### Detholiad gan Derfel Roberts

(sef adroddiadau o bapurau Newyddion Cymraeg fel 'Y Cloriannydd' a rhai eitemau eraill wedi eu gludio ar dudalennau dyddiadur bychan 10cm x 6cm [4m x 2½m] yn dyddio o 1933, oedd yn eiddo i John Owen, Garnedd Wen, Llanfairpwll.)

#### CAU PEN Y MWDWL

Yn y bennod olaf hon tynnir sylw'r darlennydd at ddau hanesyn am forwyr lleol oedd yn hwylio'r byd ar longau ryfel. Mae'r cyntaf, sef gŵr o'r enw Charlie Moules yn gwasanaethu ar long ryfel o'r enw HMS

Dragon ac wedi mynd i Jamaica oherwydd bod cythrwfl ar Ynys Ciwba. Dywed y cyflwyniad mai hwylio i bellafoedd byd mae'r llongau rhyfel Prydeinig i "wlyio'n buddiannau ni" yno. Mae'r erthygl yn cymharu'r gwaith a wneir gan long ryfel i waith yr heddeidwaid ym Môn sy'n cael eu symud o le i le pan fo anghydfod. Mae'r dôn ganmoliaethus i waith y llynges Brydeinig yn naif o ddiwed ond dyna agwedd llawer rhwng y ddau ryfel byd mae'n rhaid. Mae Charlie, mewn llythyr at golofnydd 'Y Cloriannydd' yn sôn am y Cymry a gyfarfu ar ei deithiau ac yn dweud pa mor braf oedd cael siarad yr hen iaith efo nhw. Yn nes ymlaen

mae'n adrodd fel y cafodd fynd i Long Beach a Los Angeles yng Nghaliffornia lle cyfarfu â Will Rogers y seren ffilmiau a'r comediwr enwog o gyfnod y 30au.

Yn y darn nesaf mae teyrnged yn cael ei thalu i hen forwr arall, sef John Jones, Tanygraig. Bu John Jones yn y llynges am flynyddoedd a sonnir amdano yn ystod Rhyfel 1914-19 yn cario bwyd i'r milwyr yn Ffrainc "er gwaethaf y submarines a pheryglon eraill." Gwasanaethai John ar long o'r enw 'Lapland' a'i fab gydag ef, "pan gafodd y llong dorpedo yn ngenau Afon Mersey." Penderfynodd y 'Royal Seamen's Society' eu bod am roi pensiwn wythnosol i John Jones am ei flynyddoedd o wasanaeth i'r RNR. Terfyna'r erthygl gyda'r gohebydd yn honni nad oedd neb "a'i haeddodd yn well," ac y byddai'n fuddiol i gael noson o giniawa yn y Neuadd gyda John Jones yn adrodd hanes ei anturiaethau ar y môr.

Yn y toriadau olaf un adroddir hanes yn yr iaith Saesneg gan ohebydd arbennig o Berlin. Sôn mae'r erthygl am lyfr i blant 7 i 8 oed a gyhoeddwyd yn yr Almaeneg. Yr hyn a ddywedir yn y toriad yw bod yr Almaen wedi cael cam dybryd gan Loegr, Ffrainc a Rwsia

a bod "arwyr" fel Hindenburg ac Adolf Hitler wedi ymladd am hunan barch yr Almaen a bod y gwledydd eraill yn genfigennus o ddyfeisgarwch a dewrder yr Almaenwyr.

(Dylid cofio yma mai 1933 yw dyddiad y toriadau a bod hynny yn y cyfnod pan oedd Hitler yn tynhau ei afael ar yr Almaen ond heb eto ddangos yn eglur pa mor eithafol oedd ei gynlluniau.)

Mae'r llyfr yn llawn cydymdeimlad â'r Almaen a'r cam real a dychmygol a deimlai llawer o Almaenwyr am yr hyn a ddiwyddodd ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf. Dyna'r cyfnod pan oedd y Cyngrheiriaid yn amgylchynu'r Almaen ac yn mynnu iawndâl am y gost a ddiweddefwyd yn y Rhyfel Mawr. Canmoliaethus yn gyffredinol yw tŷn yr adroddiad ac mae'n cytuno mai cam gafodd yr Almaen ond ond yn fwy na hynny bod angen i blant yr Almaen ddysgu eu "gwir" hanes a gweld pa mor arwrol a dewr y gall Almaenwyr fod ond iddynt gael arweiniad cryf fel yr hyn a gynigir gan Adolf Hitler.

Ychydig iawn o bobl a sylweddolai'r fath greulondeb a dioddefaint y byddai'r arweinydd "cryf" hwnnw yn ei achosi i'r holl fyd ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach.

## Ysgol Llandygai

### Bwyd Tapas

Bu disgyblion dosbarth Awel (Blwyddyn 4 a 5) ar ymweliad i fwyty Midland Tapas ym Miwmares cyn hanner tymor er mwyn dathlu diwedd eu thema. Cawsant wledd tri chwrs o fwydydd traddodiadol Sbaeneg wedi ei baratoi ar eu cyfer a hyn yn dilyn eu gwaith yn dysgu'r iaith ar lawr y dosbarth. Diolch yn fawr iawn i'r bwyty Midland am y croeso arbennig ac am y bwyd hynod o flasus! Cafodd pawb ddiwrnod i'r gofio.

### Taith Techniquet

Bu disgyblion dosbarth Gwawr ar ymweliad â Techniquet yn Wrecsam yn ddiweddar er mwyn cael sbardun i gychwyn eu thema newydd "Y Gofod". Cawsant weithdai ymarferol drwy'r dydd am y gofod a'r planedau ac am rymoedd.

### Dathlu Diwrnod Diogelwch ar y We

Ar yr 11eg o Chwefror, bu'r ysgol yn dathlu diwrnod Diogelwch ar y We. Bu pob dosbarth yn canolbwyntio ar agweddau gwahanol o ddiogelwch. Diolch yn fawr i'r grŵp Derwyddon y Cyfrifiaduron am drefnu'r gweithgareddau o dan ofal Mrs Pritchard.

### Ymweliad Mr.Neville Hughes â Dosbarth Awel

Hoffai ddisgyblion dosbarth Awel ddiolch yn fawr iawn i Mr.Neville Hughes am ei amser

yn dod i mewn yn ddiweddar er mwyn ateb eu cwestiynau. Bu'r disgyblion yn brysur yn paratoi cwestiynau ar ei gyfer er mwyn ysgrifennu bywgraffiad amdano. Yn sicr, maent wedi dysgu llawer iawn amdano a'i gyfnod yn perfformio gyda'r grŵp *Hogia Llandegai*. Diolch yn fawr iawn i chi!

### Dydd Miwsig Cymru

Bu'r ysgol yn brysur yn paratoi at y diwrnod yma gyda phob dosbarth yn gyfrifol am ddysgu cân Gymraeg i'w berfformio. Cawsom wasanaeth cerddorol iawn y bore hwn gyda pherfformiadau o ganeuon amrywiol o bob genre! Llongyfarchiadau mawr i ddosbarth Awel ar ddoed yn fuddugol. I orffen y diwrnod, bu'r disgyblion oll allan ar fuarth yr ysgol yn yr heulwen yn dawnsio, canu ac yn mwynhau perfformiad gan y cerddor *'Welsh Whisperer'*.

### Eisteddfod Ysgol Llandygai

Bu cyffro mawr ar ddiwrnod Eisteddfod yr ysgol eleni unwaith eto. Mae disgyblion blwyddyn 6 wedi bod yn gweithio'n ddygn ar eu cyfansoddiadau barddonol a chawsom ni oll glywed y feirniadaeth ganmoladwy iawn. Llongyfarchiadau mawr i Finley Naylor o flwyddyn 6 am fod yn deilwng o'r gadair eleni. Roedd hi'n gerdd llawn delweddau. Dyma i chi'r gerdd fuddugol.

### Fy Myd Perffaith

Mae gen i freuddwyd am fydd  
Lle bydd pawb yn parchu yr amgylchedd a  
ddim yn hagrau planhigion,  
Lle na fydd llygru gwledydd,  
Lle na fydd cynhesu byd-eang.

Mae gen i freuddwyd am fydd  
Lle bydd pawb yn gallu dangos ei emosiynau,  
Lle na fydd pobl yn cyflawni hunan-laddiad  
Lle na fydd pobl yn ddigalon.

Mae gen i freuddwyd am fydd  
Lle bydd anifeiliaid yn ddiogel,  
Lle na fydd pobl yn herwheila creaduriaid  
prydferth,  
Lle na fydd morfilod yn marw allan.

Mae gen i freuddwyd am fydd  
Lle bydd pawb yn iach,  
Lle na fydd cancr yn curo,  
Lle na fydd y genedl yn sâl.

Mae gen i freuddwyd am fydd  
Lle bydd pawb yn saff,  
Lle na fydd terfysgwyr yn ymosod ar  
ddinasoedd  
Lle na fydd tryblith ym mhobman yn tarfu.

Mae gen i freuddwyd am fydd  
Lle bydd cariad yn gryf fel aur,  
Lle na fydd y wlad yn wlo,  
Lle na fydd teuluoedd yn torri.

Mae gen i freuddwyd am fywyd  
Lle bydd pawb yn anelu am y sêr,  
Lle na fydd dinasoedd yn dymchwel  
Lle na fydd dynol-rhyw yn colli gobaith...

## Dawns Te'r Ail Ryfel Byd



I gloi thema'r 'Ail Ryfel Byd' dosbarth Tirion, cawsant brynhawn o wledda yn eu dawns te. Mae'r disgyblion wedi mwynhau'r thema yn fawr iawn. Buont yn brysur yn paratoi ar gyfer y Ddawns Te drwy ddysgu caneuon traddodiadol o'r cyfnod ('*We'll meet again*' a '*White Cliffs of Dover*') yn ogystal â dysgu'r dawnsiau *Charlston* a'r *Lambeth walk*. Rhoddwyd gwahoddiad i'r rhieni a daeth pawb yn eu gwisgoedd

traddodiadol o'r cyfnod gyda'r disgyblion wedi gwisgo fyny fel efaciwis. Mwynhaodd y disgyblion a'r rhieni frechdanau a chacenni gyda phaneidiau o de.

Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i Morrisons, Bangor am eu cyfraniad tuag at y prynhawn gyda'u rhoddion bwyd ar gyfer y te prynhawn, a diolch i'r rhieni a chwmniau lleol am eu rhoddion tuag at y raffl. Diolch yn fawr iawn i chi.



# Nyth y Gân

## Wythnos Cŵl Cymru

Wel...am wythnos llawn hwyl yn dathlu Cymreictod! Mae'r plant wedi bod yn mwynhau wythnos o weithgareddau lu ac wedi cael cyfleoedd di-ri i ddangos eu creadigrwydd.

Bu'r cerddor Huw Roberts yn brysur yn y bore yn perfformio ar amryw o offerynnau (corn bib, ffidil a'r delyn) ar gyfer y Cyfnod Sylfaen tra bu'r adran lau yn mwynhau bore o gelf gan yr artist lleol, Glyn Price. Buont yn astudio ei arddulliau ac yna'n creu cyfanwaith eu hunain yn dilyn y gweithdy.

Cawsom hefyd ymweliad gan Ed Holden ar y dydd Gwener lle bu'r disgyblion yn gwrandao ar ei berfformiadau a dysgu un neu ddau o'i driciau ar sut i 'beat-bocsio'. Cafodd y disgyblion fwynhad mawr o hyn.

Hoffem ddiolch i bawb a fuodd yn ymweld â'r ysgol yr wythnos yma i ddiddanu'n disgyblion a chynnig profiadau newydd iddynt!

## PC Owain

Daeth PC Owain acw i sgwrsio gyda disgyblion yr adran lau am ymddygiad gwrthgymdeithasol a sut mae ymddwyn yn synhwyrol ar-lein ac mewn bywyd yn gyffredinol. Cafwyd ymateb da ac aeddfed gan y disgyblion.

## Diolch a Ffarwel

Mae'r amser wedi dod i ni ffarwelio â Miss Angharad Price. Mae Miss Price wedi bod hefo ni ers bron i flwyddyn yn gwneud cyfnod Mamolaeth. Diolch yn fawr iawn i chi am eich holl waith caled a'ch brwdfrydedd di-ri dyddiol! Mi fyddwn ni oll yn gweld colled fawr ar eich ôl. Hoffwn ddymuno'n dda i chi a gobeithiwn yn wir i chi gadw mewn cysylltiad.

## Dymuniadau gorau

Dymuniadau gorau i Miss Lois am wellhad buan. Mae pawb yn cofio atoch Miss Lois.

## Croeso

Hoffwn groesawu acw ein myfyrwyr o'r Brifysgol, Miss Jones a Mr Williams sydd ar gyfnod o brofiad dysgu blwyddyn gyntaf yn y Cyfnod Sylfaen. Croeso mawr atom!

## Y Llwybr Troed

(Tan y Bryn, Parc Moch)

Drwy'r coed yn araf oedi yr af i  
I'r fan gan fyfyrto;  
Ar ei hyd y bu rhodio  
Yno fel hyn ers cyn co'.

## Blodyn

Yn dawel y blodeuodd, a lliwiau  
Llawen a ddangosodd;  
Blodyn blwydd mor rhwydd y rhodd  
O'r gofal hir a gafodd.

## Y Morwr

Fe'i denwyd gan gryf donnau i hwylio  
Drwy'r heli i fannau  
Y melyn, wych gymylau  
Yn ei gwch cyn i'r nos gau.

## Y Ferch ar y Traeth

(profiad Lili, mam Eurwen)

Am oriau y bu'n chwarae  
Ar draeth wrth dŷ ei mam,  
A hynod bleser gafodd  
Heb dderbyn unrhyw gam.

Broc môr a cherrig llyfnion  
Orweddai dan ei thraed,  
A nifer fawr o gregyn  
Amryliw yno gaed.

Roedd ambell bwll i'w weled  
A'i dd r yn weddol lân,  
Yn cynnwys sawl creadur,  
Yn grancod mawr a mân.

Â hithau yn chwilota  
Y traeth ar gwr y lli,  
Ymysg y graean yno  
Bawd troed a ganfu hi.

Roedd hyn ar ôl y rhyfel,  
A brith ein traethau ni  
O lawer o weddillion  
Sawl llong aeth dan y lli.

Un rhan o gorff o'r rhyfel  
Yn dangos colled llwyr,  
A'r ferch a'i mam yn holi  
"Pwy ydoedd?" Pwy a wŷr?

Dafydd Morris

## Bleddyn

(fy naeargi)

i gynffon yw'r ffyddlonaf, - a'i lygaid  
Golygus yw'r mwynaf;  
Bri hwn yw ei gwmni braf -  
Eto mae'n llamu ataf!

## Drych

Ynddo gwêl hud y ddelwedd - ohonot  
Ti dy hun heb sylwedd,  
Ac yn y llun yn unwedd  
Y mae gweld ystum a gwedd.

## Cloc

Pob munud o'n byd a'n byw, - a'n heiliad,  
Yn rheolaidd hygryw,  
Eilradd yw trefn dynolryw,  
Mesurydd ein dydd yw Duw.

## Cadair Freichiau

Mwyn i gael adfer amynedd - ac awr  
O gwsgr rôl anhunedd;  
Mawr yw budd hwyryddyd ei hedd,  
Ei hafan o dangnefedd.

## Canol Oed

Heno mae beichiau henaint  
Yn hyll ar fy ngwar fel haint;  
Moeli a chrydcymalau  
A rhychau, a breichiau brau;  
Y boen o sylwi fod bol  
Yng nghynnydd bras fy nghanol.  
Daeth canol oed ac oedaf  
Wedi braint y doeau braf;  
Hen atgofion sy'n llonni,  
Yn nawdd i fy nghalon i,  
A'u hwyl sy'n gof anwylaf  
O hyd er treio fy haf.  
Hydref ddaw ag aeddfedrwydd  
A rhoi ei ffrwythau yn rhwydd.

Goronwy Wyn Owen

## Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus  
a Swyddfa Bost

Gwasanaeth personol  
gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr  
7 diwrnod yr wythnos

# CROESAIR

## AR DRAWS

- 1 Gall ddigwydd neu beidio (6)
- 4 Pam chwilio yma am y ffordd yn ôl ? (3)
- 8 Beth yw'r pwrpas, yn niwedd Medi mae cychwyn bendithiol (5)
- 9 Carcus wrth deithio i'r de (7)
- 10 Pentref ffynnon yn Eifonydd (7)
- 11 Mynd i rwydi dryslyd yn gosb (5)
- 12 Gweithwyr ambiwlans (11)
- 17 Dymunol a hardd, '--- --- o bryd' (idiom) (2,3)
- 19 Fferen coes bren (7)
- 21 Gwers iaith yn yr ysgol, '----- - Deal' (6,1)
- 22 Llong yr anialwch (5)
- 23 100 medr neu filltir mor gyflym ag y medrwch (3)
- 24 Yn ei swancio hi'n bwysig wrth gerdded (6)

## I LAWR

- 1 Llestri metel (6)
- 2 Drysu wrth esbonio heb ddeg beth i'ch cadw'n lân (5)
- 3 Rhoi dros dro (7)
- 4 Dinistrio, ond yn moli aur o hyd (7)
- 5 Lle i gael dŵr yn y llan yn ôl yr unawd enwog (6)
- 6 Traean un o'r chwedeg sydd mewn awr (5, 6)
- 7 Yr hyn a wneir yn 5 I Lawr efallai (4)
- 13 Kate neu Eigra, Manon neu Caryl (7)
- 14 Gwella clyma' o'i gyhyrau wrth hamddena a gorffwys (7)
- 15 Cyfnod sy'n grimp, heb wlybaniaeth (6)
- 16 Dechrau ei lapio yn ofalus ar ôl gofyn yn daer amdano (6)
- 18 C yr (4)
- 20 Mis Mai mewn trefn (5)


## ATEBION CROESAIR CHWEFROR 2020

**AR DRAWS** 1 Tyfu, 3 Tagu, 8 Ensynio, 9 Arfau, 10 Goror, 11 Ymlusgo, 13 Toriad Gwawr, 16 Buddsoddi, 18 Genod, 19 Bamb, 21 Iraciad, 22 Crin, 23 Tu ôl

**I LAWR** 1 Treigl, 2 Festrïoedd, 3 Traul, 4 Gof, 5 Yn Troi, 6 Gorymdeithio, 7 Huno, 12 Siwrneiau, 14 Wigwam, 15 A Didol, 16 Babi, 17 Olwen, 20 Mur

Ychydig o gamgymeriadau a gafwyd y tro yma, sef tri ohonoch wedi rhoi 'Codiad Gwawr' yn lle 'Toriad Gwawr' (13 Ar Draws), a dau wedi cynnig 'Trengr' yn lle'r ateb cywir 'Treigl' (1 I Lawr).

Dyma'r rhai gwblhaodd y croesair yn hollol gywir. Llongyfarchiadau i chi oll : Gaynor Elis-Williams, Gwen a Bryn Evans, Rita Bullock, Ann Morris, Bethesda; Gwenda Davies, Llanfairpwll; Doris Shaw, Bangor;



Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Tregarth; David T. Hughes, Cyffordd Llandudno; Gill King, Mynydd Llandygai; Iona Williams, Llanddulas; John a Meirwen Hughes, Abergele; Gwyneth Jones, Glasinfryn; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Jean Hughes, Talybont.

Enw Rita Bullock, 8 Maes-y-Garnedd, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3BP ddaeth allan gyntaf o'r het ac iddi hi yr aiff y wobr y mis yma. Llongyfarchiadau mawr.

Atebion erbyn 1af Ebrill, 2020 **fan bellaf** i 'Croesair Mawrth', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD.

Atebion erbyn 1 Ebrill, 2020 i 'Croesair Mawrth'  
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad

# Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas  
☎ 01248 355336

## Merched y Wawr

Cyfarfod Chwefror 10

Croesawyd pawb i'r cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn gan na chafwyd cyfarfod ym Mis Ionawr oherwydd y tywydd garw. Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Annes, Jean, Elina a Rhiannon.

Ein gŵr gwadd oedd Cynrig Hughes. Diolch i Cadi Iolen am ddod hefyd i helpu gyda'r sleidiau. Mae gan Cynrig ddi-ddordeb mawr mewn hanes, yn enwedig hanes lleol. Testun ei sgwrs oedd Trysorau Rhiwlas a Phentir. Pan edrychodd yn y llyfr Crwydro Arfon gan Alun Llewelyn Williams yn ddiweddar siomedig oedd sylwi mai dim ond wyth gair oedd am Rhiwlas ac felly aeth ati i wrthbrofi hyn. Dyma rai o'r eitemau diddorol a gawsom ganddo. Yn Rallt Isaf y ganed John William Thomas i deulu cyffredin iawn. Roedd ei dad yn gyfrifol am gŵn hela Plas Pentir. Galwodd ei hun yn Arfonwyson a bu'n athro a gwerthwr llyfrau. Cyhoddodd sawl llyfr ac aeth i Lundain wedyn i chwilio am waith. Yno daeth yn aelod o Gymdeithas y Cymreigyddion ac ymhen amser aeth i weithio i'r Arsyllfa Frenhinol. Daeth i enwogrwydd lleol am iddo gynllunio Llechi Seryddol Bryn Twrw sydd nawr yn Tyddyn Dicwm.

Cyn cyrraedd ysgol y pentref mae murddun o'r enw Llidiart Mawr, ac yno roedd hen dir comin yr ardal. Roedd tir comin yn bwysig yn y cyfnod yna ond yn 1811 cafwyd deddf yn cau'r tir yma a'i roi i'r Faenol, Penrhyn a Plas Pentir. Adeiladwyd tŷ ar y ffin a Llidiart Mawr ar draws y ffordd er mwyn rheoli'r mynediad yn y blynyddoedd cyntaf. Diddorol oedd cael hanes tarddiad enw'r murddun Llidiart Mawr. Cawsom fwy o wybodaeth am yr ardal ond yn sicr fe fydd darlith arall gan Cynrig am drysorau Rhiwlas a Phentir. Diolch iddo, ac i Cadi am ddod atom i roi blas ar drysorau y pentref. Diolch i Carys a Linda am wneud y baned.

## Angladd John Huw Evans, Bro Rhiwen a Phlas Pengwaith

Bu farw John Huw yn Ysbyty Gwynedd yn 93 oed. Bu'r angladd yn yr Amlwgfa ar Chwefror 12fed ac 'roedd y dyrfa a oedd yno yn dyst o'i boblogrwydd a'r parch tuag ato.

Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parch Euron Hughes, Seion gynt, ac un a fynychodd yr Ysgol Sul yng nghapel Pysgah. Cafwyd darlleniad gan Gareth Evans a D Wyn Williams oedd wrth yr organ

Cafwyd teyrnged iddo gan Neville Hughes ac eglurodd i'r ddau ohonynt ddod yn ffrindiau drwy iddynt gyfarfod yn y 60au pan yn ymgyrchu dros Blaid Cymru gyda Dadydd

Orwig, Roedd hefyd yn ymfalchio fod ei fam yn un o'r 609. Wedi cyfnod yng Ngholeg Madryn aeth i Aberystwyth i astudio amaethyddiaeth ac fe dreuliodd flynyddoedd yn gweithio i Adran Amaeth y Llywodraeth, yn ymweld â'r ffermydd ac yn sicr wedi mwynhau sawl paned a chlonc ar ei ymweliadau.

Roedd yn angerddol dros Gymru hyd y diwedd ac yn sicr yn ddyn ei filltir sgwar, ac fel y dywedodd Angharad Tomos yn Yr Herald Gymraeg, "un o'r Milwyr Traed ydoedd yn gweithio'n dawel a dygn". Roedd Capel Pysgah yn bwysig iddo, y Neuadd Bentref, Cymorth Cristnogol a Llais Ogwan, a bu'n ohebydd y pentref am flynyddoedd ac yn ddsbarthwr hefyd. Fe hoffai ysgrifennu hefyd, yn cystadlu ac yn ennill mewn eisteddfodau. Derbyniodd Dlws Coffa Eirug Wyn gan Y Faner Newydd. Bydd colled ar ei ôl.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Rhys a Kate, Rhian a Jim ac at Heledd a Morgan. Derbynwyd rhoddion er cof tuag at Llais Ogwan.

## John Huw

*(Ysgrifenydd yn dilyn ymweliad â John ym Mhlas Pengwaith yn 2018 ac a ddarllenwyd gennyf yn ei angladd - Neville Hughes)*

Na, ni welais yn fy myw  
Neb yn debyg i John Huw,  
Er ei fod o wedi pasio'r naw deg oed;  
Anodd credu hyn, mae'n wir,  
Â'i gof mor loyw glir,  
A'i sgwrs mor ddifyr ag y bu erioed.

'Rwyn gwybod bod John Huw  
I mi yn gyfaill triw,  
Ac yn driw i Gymru gyfan ac i'r iaith;  
Un cadarn iawn ei farn  
Ac yn Gymro at y carn,  
Un felly bu John Huw ar hyd y daith.

'Roedd Rhiwlas i John Huw  
Yn fwy na lle i fyw,  
Dyna'i nefoedd ar y ddaear, yn ddi-ffael;  
Fe garodd ei ardal, do,  
A bu'n golofn yn ei fro,  
Nac anghofiw'n ninnau ei gyfraniad hael!

Yr annwylaf o blant Duw  
Yn ddi-ddadl oedd John Huw,  
Un a gerddodd hyd ei oes yn ffyrdd y saint;  
Y mae'n cyfarch pawb mor glên,  
- Yr ysgwyd llaw a'r wên!  
Mae cael fy nghyfrin un o'i ffrindiau i mi'n fraint.

## Diolch

Dymuna teulu'r diweddar John Huw Evans ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad ddangoswyd tuag atynt yn dilyn marwolaeth tad a thaid annwyl. Diolch hefyd i bawb fu yn ymweld ag ef tra bu ym Mhlas Pengwaith.

## Cydymdeimlo

Yn yr un modd fe gydymdeimlwn ag Eluned a Dafydd Williams, Megan a Gwen, Carreg y Gath. Bu farw tad Eluned, y diweddar, Arwyn Humphreys, Bryn Crug. Roedd yn weithgar gyda'r Westeiaid, yn Oruchwyliwr Cylchdaith Glannau Meirion a Dyfi, ac yn aelod o Synod Cymru. Anfonwn ein cofon atoch fel teulu.

## Clwb Rhiwen

Yng nghyfarfod olaf mis Chwefror aeth nifer ohonom i gaffi Fferm Moelyci i gael paned a sgwrs. Roedd yn ddiwrnod braf, dim glaw na gwynt fel rydym wedi ei gael yn aml yn ystod y mis bach eleni. Fe fydd y cyfarfod nesaf yng ngofal Jean.

## Dymuno'n dda

Pob dymuniad da i Mark Williams, Bro Rhiwen wedi iddo gael triniaeth yn yr Ysbyty. Cofon atat.

## Y Neuadd

Mae'r Neuadd ar ei newydd wedd yn edrych yn dda iawn, dipyn o baentio wedi bod. Diolch i'r rhai a fu yn helpu gyda'r gwaith yn enwedig i John Jones, Bro Rhiwen. Diolch i'r canlynol hefyd, Dylan Griffiths, Carl Walther, Jennifer Barnard a Gareth Williams.

## Digwyddiadau

Mawrth 14 - Sêl Penbwrdd. 10 - 1 y pawns.  
*Ebrill 7fed am 7 o'r gloch: Darlith, Cyfrwng Cymraeg gan Cynrig Hughes: Bara Brith ar y Paith* - hanes mynd o Rhiwlas i Batagonia  
**Paned a sgwrs i helpu dysgwyr am 10 o'r gloch.**

**Clwb Crefftau** Mae'r clwb bellach yn flwydd oed ac yn mynd o nerth i nerth. Ymunwch â ni ar Nos Lun am 7 o'r gloch.



## PESTO

### Cynhwysion:

- 2 lond dwrn o frenhinllys (basil).
- 100 gram o gaws Parma (parmesan cheese) wedi ei gratio.
- 1 gewin o arleg.
- 100 gram o olew olewydd pur (virgin).
- 100 gram o olew olewydd cyffredin.
- 1 llond llaw o gnau pinwydd (pine nuts).
- 2 lwy fawr o ddŵr pasta.

### Dull:

Rhowch y gwbl mewn prosesydd bwyd gyda'r dŵr pasta a'u cymysgu'n dda. Rhowch o dros y pryd pasta, neu ei botelu a'i roi yn yr oergell.

# Ras Llwybr Llechi Eryri 2020

*(Gyda diolch i Emyr Roberts, Bryn Derwen Isaf, am y stori a'r llun.)*



Dros y penwythnos 21-23 Chwefror cynhaliwyd yr ail ras 'Ultra Marathon' 89 milltir sydd yn amgylchu ardaloedd llechi Eryri. Mae'r rhan fwyaf o'r ras yn dilyn y Llwybr Llechi Eryri swyddogol gafodd ei lansio yn Neuadd Ogwen ym mis Tachwedd 2017 – sydd yn 83 milltir o hyd, yn dechrau ym Mhorthladd Penrhyn ac yna ymlaen i Lanberis, Beddgelert, Llan Ffestiniog a Betws-y-Coed, ac yn gorffen yn Llys Dafydd, Bethesda. Gyda cymorth Cronfa Dreftadaeth y Loteri, datblygwyd y Llwybr gan Aled Owen o Gwm Penmachno - yn enedigol o ardal Bethesda.

Cwmni 'Uphilldowndale' sydd yn gyfrifol am y ras, ac i hwyluso'r trefniadau, mae dechrau a diwedd y ras yng Nghlwb Rygbi Bangor ger Llandygai. Mewn ambell le, mae llwybr y ras yn wahanol i'r llwybr swyddogol, a dyna pam fod y ras yn 89 milltir. Mae tirwedd y llwybr yn anodd gyda dringo dros 500 metr (1600 troedfedd) mewn dau le.

Dechreuwyd y ras am 7yh ar y nos Wener gyda 62 o ymgeiswyr – tua 54 o ddynion a 8 o ferched. I ddechrau, 'roedd y tywydd ar y noson yn aruthrol gyda glaw trwm a gwynt cryf – amgylchiadau anodd iawn, ond cafwyd gwell tywydd ar y dydd Sadwrn.

Eleni, enillydd y ras oedd Tristan Steed o Glwb Rhedeg Witham, Essex wedi cwblhau y cwrs mewn 21awr, 33munud a 54 eiliad (dros 4 milltir yr awr), a'r ferch fuddugol oedd Seda Nur Celic o Twrci gyda'r amser ychydig eiliadau o dan 31 awr. Daeth y rhedwr olaf i ddiwedd y ras ar ôl 41 awr – yn gorffen hanner-dydd dydd Sul wedi treulio dwy noson ar y daith. Er gwaetha'r tywydd, fe lwyddodd 24 o redwyr i gwblhau y ras.

*Er gwybodaeth, mae'r llyfr 'Snowdonia Slate Trail' gan Aled Owen yn rhoi disgrifiad manwl o'r llwybr.*



Tristan Steed – enillydd y ras yn Nant Ffrancon – erbyn hyn wedi rhedeg 83 milltir mewn 20 awr.



**Slimming**  
WORLD

**Clwb criced a  
bowlïo Bethesda**

**Bob dydd Iau  
9.30yb, 4yp a 6yh**

**Ffoniwch Manny  
07557532380**

**Gareth Williams**  
Trefnydd Angladdau

**Crud yr Awel**  
1 Ffordd Garneddwen  
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707  
GWASANAETH DYDD A NOS